



Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

**Paratowyd gan Chwarae Cymru ar gyfer Grŵp Llywio'r
Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae**

ADRODDIAD TERFYNOL

Tabl cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	<i>Methodoleg / dull</i>	3
3	<i>Cefndir</i>	5
4	<i>Gwerthfawrogi chwarae.....</i>	7
	4.1 Pwysigrwydd chwarae.....	7
	4.2 Creu yr amodau ar gyfer chwarae.....	7
	4.3 Rhwystrau i chwarae	8
	4.4 Barn plant ar y rhwystrau i chwarae	9
	4.5 Chwarae a COVID-19	9
5	<i>Dadansoddiad o'r themâu allweddol.....</i>	10
	5.1 Thema 1: Aliniad deddfwriaethau allweddol sy'n effeithio ar yr hawl i chwarae.....	10
	5.2 Thema 2: Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chyllid.....	13
	5.3 Thema 3: Cyfiawnder gofodol.....	15
	5.4 Thema 4: Darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae	17
	5.5 Thema 5: Y gweithlu a chymwysterau	19
	5.6 Thema 6: Chwarae ac addysg	21
6	<i>Casgliad</i>	24
7	<i>Argymhellion allweddol a cherrig milltir awgrymedig.....</i>	26
	Atodiad 1: Aelodaeth y Grŵp Llywio.....	39

1 Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2019, mewn datganiad ysgrifenedig, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ei bod wedi penderfynu i fynd ymlaen gydag Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno trosolwg o broses yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

Nod yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yw asesu gwaith Llywodraeth Cymru o ran y polisi chwarae ac i hysbysu sut dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a symud yr agenda chwarae yn ei blaen. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried y cynnydd a wnaethpwyd wrth gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae, fel y mynegir yn ei *Bolisi Chwarae*, ac mae'n cyflwyno nifer o argymhellion allweddol sydd angen eu gweithredu.

Bydd plant¹ yn chwarae ar eu pen eu hunain, gyda'u cyfoedion neu gydag oedolion cefnogol. Mae'r manau ble bydd plant yn chwarae'n amrywiol. Gall chwarae ddigwydd ble bynnag a phryd bynnag y bydd yr amodau'n gywir, a hynny dan do a'r tu allan. Mae chwarae plant yn digwydd mewn ystod amrywiol o leoedd, yn benodol:

- yn y cartref, yr ysgol, gofal plant a lleoliadau gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol
- manau dynodedig ar gyfer chwarae, wedi'u staffio a heb eu staffio
- manau eraill fel amgueddfeydd neu ysbytai
- manau cyhoeddus y gall plant gael mynediad iddynt.

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried:

- gweithrediad deddfwriaeth statudol, a adnabyddir fel y 'Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'
- gwaith chwarae fel y gwasanaeth proffesiynol sy'n cefnogi chwarae plant
- chwarae'n fwy cyffredinol – mewn ysgolion, cymdogaethau a'r gymuned ehangach
- aliniad polisiâu cenedlaethol i gefnogi hawl plant i chwarae.

2 Methodoleg / dull

Rheolwyd yr adolygiad hwn gan y Tîm Polisi Chwarae o fewn Isadran Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru. Mabwysiadodd yr adolygiad agwedd gydweithrediadol, gan gydnabod gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid allweddol wrth ddynodi a deall y materion pwysig ac wrth edrych ar opsiynau ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ac mae'n cael ei gefnogi gan bapur cefndir manylach.

Sefydlwyd bwrdd prosiect mewnol o swyddogion traws-bolisi Llywodraeth Cymru, fu'n gyfrifol am graffu ar y prosiect yn gyffredinol yn y cyfnod cynnar. Sefydlwyd grŵp llywio o weithwyr trawsbroffesiynol (manylion yn Atodiad 1: Aelodaeth y Grŵp Llywio) o arbenigwyr chwarae a gwaith chwarae, a swyddogion polisi o Lywodraeth Cymru, i gefnogi'r adolygiad. Datblygodd Grŵp Llywio'r

Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae y casgliad terfynol o argymhellion allweddol a cherrig milltir a restrir yn yr adroddiad hwn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad trwy fenter Cymru Ifanc Plant yng Nghymru, yn gofyn i blant ddweud wrthym am eu profiad a'u meddyliau ar chwarae. Cynhaliodd Cymru Ifanc, mewn partneriaeth â darparwyr ledled Cymru, gyfres o ymgynghoriadau ar-lein ac wyneb-yn-wyneb. Ymgysylltodd Cymru Ifanc gyda 201 o blant ar draws Cymru trwy 21 sesiwn yn cynnwys plant hyd at 18 oed. Trafodir y sylwadau a fynegwyd ganddynt trwy'r adroddiad hwn ac yn y papur cefndir cysylltiedig.

Yn anffodus, gohiriwyd yr adolygiad ym mis Mawrth 2020 oherwydd y pwysau a'r ansicrwydd ddaeth yn sgîl y pandemig coronafeirws (COVID-19). Ail-gychwynnodd Llywodraeth Cymru yr adolygiad yng ngaeaf 2021 ac aeth cyfres o weithdai ati i ystyried y meysydd canlynol ymhellach:

- Gweithio traws-bolisi
- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac ariannu
- Cyfiawnder gofodol ac ymglymiad cymdeithasol
- Rheoleiddio a chofrestru lleoliadau gwaith chwarae
- Y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae
- Chwarae a pholisi addysg.

Yn haf 2021, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Chwarae Cymru gydlynu drafftio'r adroddiad adolygiad hwn. Fel rhan o'r cyfnod drafftio hwn, gwahoddwyd aelodau'r grŵp llywio i ddarparu adborth a gwybodaeth bellach am y chwe maes a amlygir yn yr adolygiad hwn.

Yna, dadansoddodd Chwarae Cymru:

- gynnwys y papurau
- y sylwadau a wnaethpwyd ar y papurau gan aelodau o'r grŵp
- y nodiadau o bob un o'r gweithdai
- yr ymatebion i arolwg ar ôl y gweithdai.

Yn dilyn y dadansoddiad hwn, dynododd Chwarae Cymru a chwrdd â rhanddeiliaid ychwanegol a chydweithwyr polisi i archwilio'r canfyddiadau ac ymgynghori ar argymhellion yr adolygiad. Arweiniodd Chwarae Cymru ar ysgrifennu'r adroddiad. Drafftiodd y Dr Wendy Russell adran Thema 3: cyfiawnder gofodol, a chynhaliwyd adolygiad gan gymheiriaid arno gan Tim Gill. Fe wnaeth Wendy gefnogi'r broses hefyd trwy olygu amrywiol ddrafftiau o'r adroddiad yn dechnegol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno trosolwg o'r canfyddiadau o'r gweithdai a'r cyfarfodydd diweddarach. Mae hefyd yn cynnwys tabl o argymhellion allweddol a cherrig milltir gan y grŵp llywio ar gyfer Llywodraeth Cymru. Caiff ei hysbysu gan bapur cefndir sy'n darparu llenyddiaeth allweddol, adroddiadau ar effaith COVID-19 a'r sail resymegol ar gyfer yr argymhellion allweddol.

Cynhaliwyd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae rhwng mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2023.

3 Cefndir

Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Bolisi Chwarae*², y polisi cenedlaethol cyntaf o'i fath yn y byd. Cynhyrchwyd y datganiad polisi hwn i adlewyrchu'r gwerth y mae Llywodraeth Cymru'n ei osod ar chwarae a phwysigrwydd plant yn ein cymdeithas. Roedd yn adlewyrchu'r ymrwymiad i sicrhau bod plant a'u hanghenion yn ganolog i lunio polisi ac y darperir ar gyfer cyflawni'r anghenion hynny. Mae'r datganiad yn seiliedig ar yr egwyddor bod gan bob plentyn hawl i chwarae.

Yn rhyngwladol, mae pwysigrwydd chwarae'n cael ei gydnabod a'i warchod yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Erthygl 31 o'r confensiwn hwn yn datgan yn groyw bod gan blant yr hawl i chwarae ac i ymuno mewn gweithgareddau hamdden eraill, ac y dylai Gwladwriaethau sy'n Barti gydnabod yr hawliau hyn.

Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru CCUHP yn ffurfiol fel sail ar gyfer llunio polisiau sy'n berthnasol i blant. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Gynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae*³ yn 2006, gan amlinellu sut y byddai'r egwyddorion a restrwyd yn y *Polisi Chwarae* yn cael eu gweithredu. Tynnodd y cynllun hwn gefnogaeth ynghyd ar gyfer chwarae oedd yn bodoli eisoes, a phennu'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Roedd yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu allweddol ac amserlen trosglwyddo. Fel rhan o broses yr adolygiad hwn, fe wnaeth Chwarae Cymru ail-ymweld â ac adolygu camau gweithredu *Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae*.

Fel arwydd o'r pwysigrwydd y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei osod ar chwarae plant, mae wedi cyhoeddi *Sylw Cyffredinol rhif 17*⁴ ar Erthygl 31. Mae Sylw Cyffredinol yn ddatganiad swyddogol sy'n egluro ymhellach ystyr agwedd o CCUHP sy'n galw am bwyslais neu ddehongliad pellach. Mae *Sylw Cyffredinol rhif 17* yn anelu i egluro hefyd bwysigrwydd Erthygl 31 ac i gynyddu atebolrwydd ymysg Gwladwriaethau sy'n Barti sydd wedi arwyddo'r confensiwn. O arwyddocâd penodol i Gymru, mae *Sylw Cyffredinol rhif 17* yn annog llywodraethau cenedlaethol i ystyried deddfu i sicrhau'r hawliau a geir yn Erthygl 31. Mae'n cynghori y dylai deddfwriaethau gyfeirio at yr egwyddor o ddigonolrwydd – y dylai pob plentyn dderbyn digon o amser a lle i arfer eu hawl i chwarae.

Yn ystod y prosiect Chi Sy'n Bwysig a gynhaliwyd dros haf 2009, dywedodd plant ledled Cymru wrth Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd eu bod yn pryderu am y diffyg manau diogel i chwarae a chymdeithasu yng Nghymru. Mewn ymateb, cynhaliodd y pwyllgor ymchwiliad 11-mis o hyd i'r rhwystrau i chwarae sy'n wynebu plant ledled Cymru. Rhestrod adroddiad y pwyllgor 26 o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried.⁵ Mae'r rhain yn ymwneud â nifer o faterion, fel trafndiaeth, cynllunio ac anghenion grwpiau penodol o blant.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod, er mwyn cyflawni ei nod o greu Cymru chwarae-gyfeillgar a darparu cyfleoedd i blant chwarae, y byddai hefyd angen i awdurdodau lleol, eu partneriaid a rhanddeiliaid eraill weithio at y diben hwn. O ganlyniad, deddfodd y llywodraeth i gefnogi chwarae plant, gan osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu a, chyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010⁶.

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i sefydlu dyletswydd o'r fath yn ei fframwaith deddfwriaethol. O ganlyniad, nid oes unrhyw gysail ar gyfer y gwaith hwn. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i wneud y deddfwriaeth hon yn addas i'r diben o wneud

Cymru'n wlad chwarae-gyfeillgar, gyda'r holl fuddiannau y bydd hyn yn ei gynnig i'n plant a'n cymunedau.

Cychwynnwyd rhan gyntaf y ddyletswydd ym mis Tachwedd 2012. Mae'n mynnu y dylai awdurdodau lleol asesu digonolrwydd y cyfleoedd i chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd. Mae Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) yn amlinellu gofynion yr asesiadau a'r Materion y mae angen i awdurdodau lleol eu hystyried. Er mwyn cynorthwyo gyda'r angen hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Creu cyfle i chwarae*, canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar asesu cyfleoedd digonol i chwarae.

Ym mis Gorffennaf 2014, cychwynnodd gweinidogion Llywodraeth Cymru ail ran y ddeddfwriaeth hon. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried eu Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae a sicrhau cyfleoedd i chwarae ar gyfer chwarae plant yn eu hardal, cyn belled ag sy'n rhesymol ac ymarferol. Mae'r ddeddf hefyd yn gofyn i awdurdodau lleol gyhoeddi a chadw'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd i chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd. *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae* yw'r cyfarwyddyd statudol newydd y mae angen i awdurdodau lleol ei ddilyn er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i asesu a sicrhau cyfleoedd digonol i chwarae.

Er bod y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cynrychioli deddfwriaeth bwysig nid yw chwarae, ac ni all chwarae, sefyll ar ei ben ei hun yn y fframwaith deddfwriaethol. Mae llawer, os nad pob un, o benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru yn effeithio ar allu plant i chwarae. Mae digonolrwydd ac ansawdd cyfleoedd i chwarae'n effeithio hefyd ar y deilliannau ar gyfer meysydd polisi eraill, a'r esiampl allweddol yw buddiannau cadarnhaol chwarae ar iechyd a lles corfforol a meddyliol plant.

Mae cyfarwyddyd digonolrwydd cyfleoedd chwarae Llywodraeth Cymru, *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, yn mynnu y dylai awdurdodau lleol archwilio pob agenda polisi am eu heffaith posibl ar chwarae plant. Mae hefyd yn gofyn i awdurdodau lleol wreiddio targedau a chymau gweithredu fydd yn cyfoethogi cyfleoedd plant i chwarae mewn nifer o strategaethau a pholisïau megis:

- Cynllunio gwlad a thref
- Traffig a thrafnidiaeth
- Iechyd a lles
- Tlodi plant
- Polisi blynyddoedd cynnar / gofal plant a'r teulu
- Mentrau polisi sy'n pontio'r cenedlaethau
- Addysg ac ysgolion
- Iechyd a diogelwch
- Datblygu cymunedol.

Mae polisïau a mentrau lleol yn cael eu dylanwadu gan ac yn gysylltiedig â chyfarwyddyd a deddfwriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, er bod cyfarwyddyd statudol diamwys i awdurdodau lleol weithio'n draws-broffesiynol, nid yw hyn yr un fath ar gyfer Llywodraeth Cymru ei hun. Dyma'r rheswm pam fod alinio deddfwriaethau allweddol yn thema ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae hyn yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae'r adolygiad hwn wedi ei gynllunio a'i gyflawni er mwyn bodloni'r amodau ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, ac i liniaru problemau di-baid fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rhestrir y gofynion hyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Ym mis Mehefin 2022, tua diwedd cyfnod yr adolygiad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn pwysleisio'r angen i symud tuag at agwedd wrth-hiliol o fewn gofal plant a chwarae ac mae angen ei ystyried wrth weithredu'r argymhellion yn yr adolygiad hwn.

4 Gwerthfawrogi chwarae

Mae'r adran hon yn crynhoi pwysigrwydd chwarae a rhai o'r ffactorau sy'n cyfyngu ar ryddid plant i chwarae yn eu cymunedau.

4.1 Pwysigrwydd chwarae

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. I'r plant eu hunain, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Maen nhw'n gwerthfawrogi amser, rhyddid a manau o ansawdd i chwarae. Pan ofynnir beth sy'n bwysig iddyn nhw, bydd plant yn sôn yn gyson am chwarae a chwrdd â'u ffrindiau.⁷ Pan fyddan nhw'n chwarae, mae plant yn cyfrannu at gyfoethogi eu lles uniongyrchol ac at eu datblygiad eu hunain.

Ceir cronfa brofedig o dystiolaeth gadarn sy'n dangos y cyfraniad y gall chwarae, yn enwedig chwarae a drefnir yn bersonol, ei wneud i les uniongyrchol a thymor hir plant, i'w iechyd corfforol ac i'w iechyd meddwl a'u gwytnwch. Mae amrywiol astudiaethau⁸ wedi casglu bod:

- Chwarae yn cefnogi cymdeithasoli. Pan maen nhw'n chwarae, bydd plant yn rhyngweithio gydag eraill, yn datblygu cyfeillgarwch ac ymlyniadau gyda chyfoedion, yn delio gyda gwrthdaro, ac yn dysgu parch a goddefgarwch⁹.
- Chwarae yn cynyddu gwytnwch. Mae chwarae'n rhoi hwb i reoli'r emosiynau, hyder, creadigedd, sgiliau datrys problemau a dyfalbarhad plant, gan gynyddu eu gallu i ymdopi â straen a heriau trwy gydol eu bywydau¹⁰.
- Chwarae yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles da. Mae bod yn fywiog trwy chwarae'n helpu plant yn gorfforol ac yn emosiynol ac yn cyfrannu at eu hiechyd a'u hapusrwydd^{11 12}.
- Chwarae yn cefnogi plant i deimlo'n rhan o'u cymdogaethau a'u cymunedau ehangach. Mae chwarae'n caniatáu i blant ddysgu am y byd o'u hamgylch, i greu cysylltiadau, a datblygu ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn¹³.
- Chwarae yn cefnogi dysg a datblygiad. Mae chwarae'n adeiladu strwythurau'r ymennydd a sgiliau megis creadigedd, datrys problemau a meddwl beirniadol¹⁴.

4.2 Creu yr amodau ar gyfer chwarae

Mae'r adolygiad hwn yn cymryd ei ddiffiniad o chwarae o *Sylw Cyffredinol rhif 17*, sy'n diffinio chwarae fel:

- ymddygiad, gweithgaredd neu broses gaiff ei ysgogi, ei reoli a'i strwythuro gan blant
- elfen anorfodol, wedi ei sbarduno gan ysgogiad cynhenid, nid fel modd i gyflawni diben
- sy'n cynnwys nodweddion allweddol sef hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a bod yn anghynhyrchiol.

Mae *Sylw Cyffredinol rhif 17* yn darparu arweiniad pellach ar y mesurau deddfwriaethol, barnwrol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol sy'n angenrheidiol i sicrhau ei weithrediad ac o'r herwydd, cyfeirir ato trwy'r adroddiad hwn.

Gall cyfleoedd i chwarae gael eu cefnogi neu eu cyfyngu yn ddibynnol ar os oes gan blant amser, lle a chaniatâd i chwarae¹⁵ fel yr amlygir yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, y cyfarwyddyd statudol diweddaraf ar gyfer awdurdodau lleol.

- Amser: Amser 'rhydd' plant pan allant ymgolli mewn chwarae. Gall 'rhydd' gael ei ddiffinio yn wrthrychol ac yn oddrychol hefyd (gan blant).
- Lle: Sut y gall gofod cyhoeddus gefnogi neu gyfyngu ar allu plant i chwarae, yn ogystal â'u mynediad i fannau dynodedig ar gyfer chwarae.
- Caniatâd: Profiadau goddrychol plant o amser a lle. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau fel ymdeimlad o ryddid, caniatâd, perthyn, ofn ac aflonyddu, yn ogystal ag adfeddiant a rheolaeth gynyddol oedolion dros chwarae.

Felly, mae chwarae plant yn ddibynnol ar gael yr amser, lle a chaniatâd i chwarae. Mae digonolrwydd cyfleoedd i chwarae'n bodoli'n fwy blaenllaw ble mae'r tair elfen yn cael eu cyflwyno'n gadarnhaol.

4.3 Rhwystrau i chwarae

Trafododd y grŵp llywio ystod o rwystrau¹⁶ cyfoes a ddynodir yn gyson sy'n atal ac sydd ddim yn cefnogi chwarae plant, a thrafod hefyd dystiolaeth sy'n cefnogi agwedd fwy cytbwys. Tra'i bod yn bwysig cofio bod plant yn unigolion gydag amrywiaeth o gyfleoedd, mae materion a thueddiadau cyffredin sy'n effeithio ar fywydau plant a'u gallu i gael mynediad i gyfleoedd i chwarae.

Mae nifer o ffactorau sydd wedi lleihau'r cyfle i blant wireddu (hynny yw, cael mynediad i) eu hawl i chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys:

- newidiadau mewn cymdogaethau, yn cynnwys defnydd cynyddol ceir, cynnydd mewn traffig (yn symud ac wedi parcio) a phatrymau gweithio newidiol
- cyfyngiadau gan rieni oherwydd canfyddiadau ynghylch diogelwch cymdogaethau, yn cynnwys traffig, bwlio, hiliaeth ac 'ofn dieithriaid'
- cynnydd mewn cyfranogaeth mewn gweithgareddau strwythuredig, ynghyd â galwadau addysgol cynyddol
- anoddefgarwch cynyddol tuag at blant yn chwarae a chwrdd â'i gilydd, gyda phlant yn cael eu hystyried fel bod 'allan o le' mewn manau cyhoeddus.

4.4 Barn plant ar y rhwystrau i chwarae

Mae cael digon o amser i chwarae yn fater sy'n codi trwy'r amser i blant: mae gwaith cartref, arholiadau ac adolygu'n cyfyngu ar eu hamser rhydd i chwarae.¹⁷ Mae plant yn mynegi awydd hefyd am fannau diogel i chwarae a chwrdd â'i gilydd, ond mae'n bosibl na fydd eu syniadau nhw o fannau diogel yn cyfateb â rhai oedolion, ac mae rhai oedolion yn gorfodi eu safonau a'u dewisiadau eu hunain.

Pan fydd plant yn siarad am deimlo'n ddiogel fyddan nhw ddim, yn gyffredinol, yn siarad am Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974¹⁸. Dydyn nhw ddim yn siarad am os oes gan yr amgylchedd y maent yn dymuno chwarae ynddo ar y pryd dystysgrif diogelwch rheoledig, safonedig, a dydyn nhw ddim yn siarad ychwaith am fod eisiau neu fod angen gorfodaeth oedolion ar eu hymddygiad mentrus eu hunain. Maen nhw'n siarad am ymdeimlad o ddiogelwch cymdeithasol ble maen nhw â rheolaeth ac yn teimlo bod croeso iddyn nhw a'u bod yn rhydd rhag bygythiadau o drais neu ymladdgarwch.¹⁹

Mae'r materion llosg y maent yn cyfeirio atynt yn tueddu i ymwneud mwy â glendid cyffredinol manau awyr agored, gan gyfeirio at sbwriel a baw cŵn fel pethau sy'n eu rhwystro rhag chwarae'r tu allan.²⁰ Mae plant hefyd yn lleisio pryderon am gyflymder a thrwch ceir a thraffig yn eu cymdogaethau.²¹

4.5 Chwarae a COVID-19

Mae buddiannau chwarae'n cael eu cydnabod yn gyffredinol, ac maent yn torri ar draws iechyd corfforol a meddyliol, lles a datblygiad plant. Mae chwarae'n ffordd i blant gadw'n iach, yn ogystal â phroses sy'n eu helpu i ddelio gydag ansicrwydd, straen a phryderon bob dydd. Yn ystod ac yn syth wedi adegau o ansicrwydd, mae chwarae²²:

- yn helpu i roi ymdeimlad o normalrwydd a llawenydd i blant yn ystod profiad o golled, unigrwydd a thrawma
- yn helpu plant i oresgyn poen emosiynol ac adennill rheolaeth dros ran o'u bywydau
- yn helpu plant i ddeall yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw, ac yn eu galluogi i brofi hwyl a mwynhad
- yn cynnig cyfle i blant archwilio eu creadigedd eu hunain.

Gyda'r ansicrwydd a achoswyd gan y pandemig, mae cyfleoedd i chwarae wedi bod yn hanfodol er mwyn helpu plant i wneud synnwyr o'u profiadau, i ddatrys problemau, ailgysylltu gyda'u cyfoedion, a hybu eu lles eu hunain. Golygodd y pandemig a chamau gweithredu'r llywodraeth i liniaru ei ledaeniad, megis cau ysgolion a meysydd chwarae, newidiadau aruthrol i ryddid plant i chwarae'r tu allan a chwrdd â ffrindiau.

'Does dim dwywaith bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar blant, ac mae gwahanol blant wedi ei brofi'n wahanol iawn. Adroddodd y plant bod methu gweld ffrindiau neu fynd i'r ddarpariaeth chwarae'n anodd iddyn nhw.²³ Cafodd mynediad plant i'r byd y tu allan i'w cartrefi ei gyfyngu yn ddifrifol, gan danlinellu a dwysáu anghydraddoldebau oedd yn bodoli eisoes. I rai plant, roedd treulio mwy o amser gartref gyda'u teulu yn braf, i eraill fe gynyddodd straen a chaledi.

Dangosodd gwaith ymchwil bod plant Duon a phlant o liw yng Nghymru wedi'u heffeithio'n anghymesur gan gyfyngiadau'r cyfnodau clo.²⁴

Wrth inni ddatblygu ymyriadau a mentrau sy'n cefnogi plant wrth iddynt ddod allan o'r pandemig a'i gyfyngiadau cysylltiedig, chwarae yw un o'r ffyrdd pwysicaf i hybu iechyd a lles plant. Mae chwarae yn bwysig i bob plentyn ar adegau o ansicrwydd. Mae'n hanfodol inni gydnabod hyn wrth inni ddod allan o'r pandemig er mwyn gwarchod iechyd meddwl a lles ein plant a chenedlaethau'r dyfodol.

5 Dadansoddiad o'r themâu allweddol

Mae'r adolygiad hwn wedi arwain at ymddangosiad chwe thema. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu trosolwg cryno o'r chwe thema ac yn cyflwyno'r argymhellion allweddol a'r cerrig milltir a ddatblygir ymhellach yn adran 7. Mae llenyddiaeth allweddol, tystiolaeth ac effaith COVID-19 ar bob thema'n cael eu trafod yn fanylach yn y papur cefndir.

5.1 Thema 1: Aliniad deddfwriaethau allweddol sy'n effeithio ar yr hawl i chwarae

Trafododd y grŵp llywio yr angen i alinio polisi chwarae cenedlaethol a Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 gyda deddfau sylfaenol a chyffredinol allweddol, yn benodol Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r aliniad hwn yn ddau-gyfeiriad: mae polisiau cenedlaethol yn cael effaith sylweddol ar allu plant i gael amser, lle a chaniatâd i chwarae; ac, yn yr un modd, gall y ffaith bod plant yn gallu chwarae gyfrannu at nodau deddfwriaethau allweddol. Mae natur statudol y ddyletswydd yn galluogi dialog rhwng y bobl hynny sydd ynghlwm â chynllunio, trafndiaeth, tai, mannau agored, parciau addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill.

Trwy chwarae, gall plant gynyddu eu gwytnwch a'u lles eu hunain.²⁵ Yn ogystal â bod chwarae'n dda ar gyfer plant unigol, teuluoedd a chymunedau, mae hefyd yn cynrychioli cyfle ar gyfer buddsoddiad cymdeithasol cadarn yn unol â ffocws Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar atal problemau i'r dyfodol. Fodd bynnag, mae gallu chwarae'n dibynnu ar yr amodau cywir – yn benodol amser, lle a chaniatâd – ac mae hyn, yn ei dro, yn dibynnu ar ystod o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, gofodol, economaidd a gwleidyddol.²⁶ Mae trefniant cymdeithasau'n dylanwadu ar gyfleoedd plant i chwarae, yn ogystal â ble a gyda phwy y maen nhw'n chwarae.²⁷

Mae hyn yn golygu, er mwyn cynorthwyo i greu gwlad sy'n gyfeillgar at blant sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer chwarae a ddewisir o wirfodd, bod angen datblygu polisi yn gydweithredol ar draws ystod eang o feysydd ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol hefyd. Mae chwarae'n cydberthyn mor agos i les (corfforol, cymdeithasol, emosiynol a chymunedol) fel y gall camau gweithredu ym mron pob maes polisi effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae.

Y polisiau a'r meysydd polisi pwysig sy'n effeithio ar hawl plant i chwarae yw:

- Deddf Gofal Plant 2006 a chyfarwyddyd statudol cysylltiedig
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (yn cynnwys Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011 a Safonau Gofynnol Cenedlaethol / Gwarchod Plant a Gofal Dydd)

- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (a Chanllawiau 2021)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a *Pholisi Cynllunio Cymru* (PCC)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (yn benodol Rhan 2 ar ordewdra, y Strategaeth Gordewdra'n Ystod Plentynod a meysydd chwarae a mannau di-fwg)
- Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a'r Fframwaith Llesiant Ysgolion
- *Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru: sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru: adroddiad terfynol* (2021)
- Adnewyddu a diwygio 2021, cynllun adfer addysg o COVID-19 Llywodraeth Cymru
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2022
- Terfyn cyflymder cenedlaethol o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig 2022
- Polisi Adfywio Canol Trefi
- *Llwybr Newydd* – Strategaeth Drafndiaeth Newydd i Gymru 2021.

Mae partneriaethau allweddol yn bodoli ar lefel leol gydag amrywiaeth o dimau, adrannau, gwasanaethau ac unigolion. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio, tai, priffyrdd, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, mannau agored, rheolwyr canol trefi, Cyngorau Tref a Chymuned, yr heddlu a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r adolygiad hwn, o reidrwydd, wedi cynnwys rhanddeiliaid a swyddogion sydd â gwahanol ddiddordebau polisi yn cynnwys addysg, gwaith chwarae, gwaith ieuenctid, iechyd, cynllunio, diogelu, gofal plant, tai a thrafnidiaeth.

Mae plant yn dynodi yn gwbl glir ble mae'r cyfrifoldeb yn sefyll ar gyfer sicrhau bod cyfleoedd digonol i chwarae: ac mae hynny gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u staff, ac ysgolion a gwasanaethau addysg.²⁸

Cododd tair neges allweddol sy'n berthnasol i'r thema hon o'u cyfranogiad:

- heriau gyda seilwaith trafndiaeth a mynediad i fannau ffurfiol ac anffurfiol i chwarae
- pwysigrwydd cydnabod buddiannau chwarae ar gyfer pob plentyn, yn cynnwys plant hŷn
- eu hawydd i gyfrannu at gynllunio gwasanaethau a chyfleoedd i chwarae ac ar draws amrediad o sectorau.

Mae pedair astudiaeth ymchwil a gomisiynwyd gan Chwarae Cymru, i weithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn tanlinellu bod y broses yn annog a hwyluso gweithio trawsbolisi ar lefel awdurdod lleol. Fodd bynnag, canfu astudiaeth 2020 bod angen, ar lefel leol a chenedlaethol, i alinio polisiâu'n well trwy gysylltiadau amlwg â chwarae mewn deddfau a chyfarwyddyd eraill. Byddai aliniad nes ar lefel genedlaethol yn cefnogi alinio polisi ar lefel leol.²⁹

Fel rhan o'r adolygiad hwn, dynododd y grŵp llywio ystod o fentrau, polisiâu a deddfau sector penodol cenedlaethol sy'n effeithio ar chwarae plant – gweler y papur cefndir (Adran 3: Dadansoddiad o'r themâu allweddol) i'r adroddiad hwn. Daeth yn amlwg i'r grŵp bod bron pob polisi'n effeithio ar os, ble a phryd y gall plant chwarae.

Fel y nodwyd uchod, mae'r adolygiad wedi amlygu'r angen i alinio polisi chwarae cenedlaethol a'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyda dwy ddeddf sylfaenol a chyffredinol allweddol.

Mae'r rhain yn dylanwadu ar ystod eang o ddeddfwriaethau, polisiâu a mentrau sector penodol sy'n effeithio ar weld plant yn cael mynediad i'w hawl i chwarae:

- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gorffori hawliau plant mewn cyfraith ddomestig gyda chyflwyniad Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar weinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu ac adolygu deddfwriaeth a pholisi.

Mae *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*³⁰ yn seiliedig ar hawliau plant ac mae'n amlygu tair erthygl o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n perthyn yn benodol i'r ddyletswydd hon:

- Erthygl 31 (Hamdden, chwarae a diwylliant): Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, artistig a gweithgareddau hamdden eraill.
- Erthygl 15 (Rhyddid i ymgysylltu): Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau.
- Erthygl 12 (Parchu safbwyntiau'r plentyn): Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, mae gan blant yr hawl i ddweud yr hyn maen nhw'n feddwl ddylai ddigwydd ac i'w barn gael ei hystyried.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod amod ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau a mabwysiadu agwedd fwy cydgysylltiedig.

Mae'r papur cefndir yn trafod yn fanylach sut mae gweithrediad llwyddiannus y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn alinio gyda phum dull o weithio yn ogystal â saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gall hyn fod trwy:

- weithio partneriaeth
- atal problemau i'r dyfodol
- ffocws ar iechyd a lles cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol
- synergeddau gyda datblygiad cynaliadwy amgylcheddol ac ymatebion i'r argyfyngau hinsawdd a natur
- ffocws ar ofod a chreu lleoedd.

Casglodd y grŵp llywio y gallai cynnwys y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn amlwg mewn cyfarwyddyd ar lefel leol a chenedlaethol helpu cyrff cyhoeddus i ddynodi a chyflawni nodau lles ar gyfer plant a chymunedau. Mae'n bwysig cofio bod cyfeiriadau at bobl yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys plant. Yn anffodus, yr unig gyfeiriadau amlwg at blant yn y deddf yw o ran mesurau iechyd, datblygiad plant a phrofiadau plentynod andwyol. Mae hwn yn agwedd diffyg, sydd ddim yn dathlu doniau neu gymwyseddau plant.

Mae'r astudiaethau ymchwil digonolrwydd cyfleoedd chwarae y soniwyd amdanynt yn gynharach yn yr adran hon wedi defnyddio agwedd seiliedig ar asedau. Mae'r agwedd hon yn edrych ar chwarae o ran yr hyn fydd plant yn ei wneud pan mae'r amodau'n gywir a sefydlu chwarae fel eu ffordd nhw o gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae hyn i'w weld amlycaf yn astudiaeth 2020³¹, sy'n alinio'r broses o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae gyda'r agwedd a fabwysiadwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a hefyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n tanlinellu bod "dull seiliedig ar asedau yn dynodi ffactorau sy'n cefnogi iechyd a llesiant da ac yn dibynnu ar weithio'n lleol gyda chymunedau"³².

Mae rhoi'r broses digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar waith wedi gofyn am ymgysylltu ystyrlon gyda phlant a dibynnu ar safbwynt sy'n ystyried plant fel unigolion cymwys sydd â'r ddawn i ddylanwadu ar ddatblygiadau positif yng nghyd-destun eu chwarae. Ledled Cymru, mae plant wedi cyflwyno sylwadau ar eu cyfleoedd i chwarae³³. O gael eu cefnogi i wneud hynny, gall plant ddarparu cyfoeth o wybodaeth a dealltwriaeth am eu cymdogaethau³⁴. Mae ymgysylltu'n weithredol gyda phlant yn rhoi cyfle inni fabwysiadu agwedd seiliedig ar asedau tuag at gyflawni eu hanghenion chwarae.

Argymhelliad allweddol 1: Mabwysiadu agwedd strategol tuag at ddigonolrwydd chwarae ar draws holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad allweddol 2: Sicrhau bod offerynnau polisi Llywodraeth Cymru'n cynnwys mesurau i gefnogi gallu plant i wneud y gorau o gyfleoedd i chwarae.

5.2 Thema 2: Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chyllid

Trafododd y grŵp llywio faterion gweithredu sy'n ymwneud â Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru ers 2012. Pwysleisiodd y drafodaeth bwysigrwydd gweithio'n strategol ac yn gydweithrediadol ar lefel leol a rhanbarthol ar gyfer chwarae plant a hefyd ystyried trefniadau cyllido.

Digonolrwydd chwarae

Mae *Sylw Cyffredinol rhif 17* yn annog llywodraethau cenedlaethol i ystyried deddfwriaethau fydd yn sicrhau'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 31 (gweler Adran 3: Cefndir). Mae'n cynghori y dylai deddfwriaethau gyfeirio at yr egwyddor o ddigonolrwydd – dylai pob plentyn gael digon o amser a lle i arfer eu hawl i chwarae.

Cafodd adran ar Gyfleoedd Chwarae ei chynnwys ym mhennod Cyfleoedd Chwarae a Chymryd Rhan Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010³⁵. Mae rhan o'r mesur yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd digonol i chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd.

Wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae, bydd rhaid i awdurdodau lleol ystyried naw Mater (neu bynciau) a ddisgrifir yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*³⁶. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae*³⁷ ynghyd â'r *Templed Asesiad Digonolrwydd Chwarae* safonedig.

Cynhaliwyd pedair astudiaeth ymchwil ar raddfa fechan (y cyfeiriwyd atynt yn adran 5.1), sy'n archwilio'r llwyddiannau a'r heriau, ers cychwyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Mae'r ymchwil i weithrediad yr awdurdodau lleol yn awgrymu er bod y broses o ystyried digonolrwydd cyfleoedd chwarae'n annog ac yn cael ei hwyluso gan weithio traws-bolisi ar lefel awdurdod lleol, bod angen atgyfnerthu hyn. Mae llai o dystiolaeth o weithio traws-bolisi ar lefel genedlaethol ac mae angen gwella hyn.³⁸ Yn gyffredinol, mae cydweithrediad da ar draws adrannau awdurdodau lleol, ond mae cydweithrediad yn fwyaf effeithiol ble mae swyddog arweiniol dynodedig ar gyfer chwarae.³⁹

Mae Llywodraeth Cymru wedi hen gydnabod rôl allweddol rhieni, gofalwyr a chymunedau wrth gefnogi neu gyfyngu ar chwarae plant, a hynny gartref ac yn y gymuned. Roedd *Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae* 2006 yn cynnwys cam gweithredu i gynhyrchu gwybodaeth ar yr hyn sy'n creu chwarae o safon a sut all teuluoedd a chymunedau helpu i'w hwyluso.

At hynny, mae'r *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae* yn cydnabod bod creu Cymru sy'n chwarae-gyfeillgar ble caiff plant ddigon o amser, lle a chaniatâd i chwarae angen i "rieni, teuluoedd a phawb yn y gymuned gydnabod bod chwarae yn bwysig iawn i fywydau plant nawr ac ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol".⁴⁰ Cafodd hyn ei godi hefyd mewn trafodaethau gweithdai'n ystod yr adolygiad hwn a'i gydnabod yn yr ymchwil i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.⁴¹

Ers 2018, mae Chwarae Cymru wedi bod yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd trwy *Plentyndod Chwareus*,⁴² gwefan ac ymgyrch sy'n "helpu rhieni a gofalwyr i roi amser, lle a chaniatâd i blant chwarae gartref ac yn eu cymuned leol". Ynghyd â'r wefan, cynhaliwyd ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, sioeau teithiol a digwyddiadau. At hynny, mae plant wedi dweud yr hoffent gymryd rhan mewn datblygiadau sy'n ymwneud â'u chwarae.⁴³

Mae'r ymchwil yn dangos yn gyson rôl anhepgor Chwarae Cymru, o ran gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chefnogi awdurdodau lleol gyda'u gwaith ar y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Ariannwyd Chwarae Cymru gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad y ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddyd statudol ac ers cychwyn y ddyletswydd, mae'n cefnogi'r prosesau digonolrwydd cyfleoedd chwarae mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys:

- hwyluso cyfarfodydd rhanbarthol i gefnogi awdurdodau lleol gyda digonolrwydd chwarae
- comisiynu a rhaedru ymchwil
- darparu adolygiadau cenedlaethol o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol
- comisiynu rhaglenni datblygiad proffesiynol a rhedeg cyfres o gynadleddau traws-broffesiynol
- datblygu gwaith chwarae
- comisiynu, ysgrifennu a chyhoeddi taflenni gwybodaeth a phecynnau cymorth
- darparu cymorth personol gan swyddog.⁴⁴

Mae'r ymchwil yn dynodi bod profiad ac arbenigedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol Chwarae Cymru'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bawb a holwyd.

Ariannu

Nid oes cyllideb genedlaethol na chyllid wedi'i glustnodi'n benodol ar gyfer chwarae neu swyddogaethau digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Mae Llywodraeth Cymru, yn hanesyddol, wedi rhyddhau cyllid refeniw a chyfalaf ar gyfer digonolrwydd chwarae ar sail *ad hoc*, diwedd blwyddyn

trwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (AWPOG). Caiff y cyllid hwn ei groesawu gan awdurdodau lleol ac mae wedi ei ddefnyddio i sicrhau cynnydd. Fodd bynnag, mae'r amserlen, sy'n aml yn gyfyng iawn, yn golygu na ellir ei wario bob amser yn y modd mwyaf strategol⁴⁵.

Cychwynwyd rhan dau o'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar y ddealltwriaeth y byddai'n niwtral o ran cost. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn adrodd gostyngiad mewn ariannu ar gyfer chwarae dros y cyfnod hwn.⁴⁶ Bu gostyngiad hefyd yn y gyllideb a'r personél ar draws meysydd eraill sy'n dylanwadu ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.

Mater allweddol arall yw cau'r mwyafrif o gymdeithasau chwarae gwirfoddol rhanbarthol ar draws Cymru. Nid oes gan yr ychydig sy'n dal i weithredu'r adnoddau i gyfrannu ar lefel strategol ac, yn aml, nid oes ganddynt y capasiti i ymateb i gynigion o gyllid pan fyddant ar gael. Mae materion fel cost yswiriant a chadw staff hefyd yn cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau chwarae a gwaith chwarae gan y sector gwirfoddol.

Tra bo pob awdurdod lleol yn cynhyrchu *Cynlluniau Gweithredu Chwarae*, mae'r rhybudd hwyr ar gyfer dyraniadau AWPOG yn golygu nad yw cyllid yn cyrraedd mewn modd fyddai'n cefnogi blaenoriaethau. Gorfodir awdurdodau lleol i symud ymlaen gyda'r hyn sy'n gyraeddadwy yn hytrach na'r hyn sydd fwyaf strategol. Mae'r gallu i wneud defnydd o ariannu'n perthyn yn agos hefyd i bresenoldeb swyddog arweiniol digonolrwydd chwarae penodedig sydd â digon o awdurdod i wneud penderfyniadau a bod yn ddylanwadol.⁴⁷ Heb swyddog sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, mae'n heriol i awdurdodau lleol gynnal grwpiau strategol a monitro, cael mynediad i gyllid a chyd-drafod gyda rhanddeiliaid i ddyrannu cyllid yn ddoeth.

Argymhelliad allweddol 3: Sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer adfer wedi'r pandemig a'r argyfwng costau byw yn ystyried hawl plant i chwarae.

Argymhelliad allweddol 4: Sicrhau bod cyllid ac adnoddau digonol ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol yn ei chyfanrwydd.

Argymhelliad allweddol 5: Cefnogi trosglwyddiad rhaglen wybodaeth i'r cyhoedd am yr hawl i chwarae.

Argymhelliad allweddol 6: Defnyddio'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n ehangach i gwmpasu ystod eang o gyrff eraill.

5.3 Thema 3: Cyfiawnder gofodol

Archwiliodd y grŵp llywio pam a sut y mae angen i Lywodraeth Cymru wneud cymdogaethau a mannau cyhoeddus eraill yn fwy cefnogol a chroesawus ar gyfer chwarae. Roedd y trafodaethau'n cynnwys polisiau cenedlaethol allweddol sy'n effeithio ar blant yn gallu chwarae yn eu cymdogaethau a mannau cyhoeddus.

Hawl plant i chwarae

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn seiliedig ar hawliau, fel holl ddeddfwriaethau a pholisïau Cymru sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae *Sylw Cyffredinol rhif*

17⁴⁸ Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn datgan bod plant yn chwarae yn unrhyw le ac ym mhobman. Mae'r datganiad cymharol syml hwn yn un dwfn ac yn helpu i egluro dau bwynt allweddol am ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru o chwarae.

Yn gyntaf, nid yw chwarae'n weithgaredd fydd ond yn digwydd mewn mannau dynodedig ac ar adegau penodedig. Caiff hyn ei gydnabod yn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, sy'n cydnabod yr angen am ddarpariaeth chwarae penodol yn ogystal â hawl plant i chwarae'r tu allan yn eu cymdogaeth leol. Yn ail, mae *Sylw Cyffredinol rhif 17* yn dangos sut mae chwarae, yn ei hanfod, yn ofodol, sy'n golygu bod angen inni greu cysylltiadau cryfach gyda pholisïau gofodol. Wrth galon *Polisi Cynllunio Cymru (PCC)*⁴⁹ mae'r egwyddor o gyflawni lles trwy greu lleoedd. Mae hon yn elfen graidd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n darparu cyfle i ddatgan yn groyw sut all mannau penodol weithio ar gyfer plant. Mae'r papur cefndir yn manylu ymhellach ar yr anghydraddoldebau yng ngallu plant i chwarae'r tu allan yn eu cymdogaethau.

Yn gyffredinol, bydd amgylchedd cyhoeddus cyfeillgar at blant yn cefnogi gallu plant i symud o gwmpas yn ddiogel ac yn ddiraferth. Mae hyn yn galw am fesurau traffig ystyriol a rhoi blaenoriaeth i gerddwyr. Bydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i blant chwarae a chwrdd â'i gilydd. Mae amser, lle, caniatâd a'r cyfle i fod gyda phlant eraill yn nodweddion allweddol o ofod cyhoeddus y gellir chwarae ynddo.⁵⁰

Beth mae cyfiawnder gofodol yn ei olygu?

Yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, mae cyfiawnder gofodol yn ymwneud â dau beth:

- mynediad teg a chyfiawn plant i'r hyn sydd gan ofod cyhoeddus i'w gynnig
- cyfranogaeth plant yn yr hyn sydd gan ofod cyhoeddus i'w gynnig.

Mae'r ffocws yma ar ofod cyhoeddus cyffredinol ac ar gymdogaethau'n arbennig. Felly, mae cyfiawnder gofodol yn ymwneud â 'rhyddid bob dydd'⁵¹ plant i symud o gwmpas eu cymdogaethau a chwarae neu gwrdd â ffrindiau. Mae hyn yn tyfu'n gynyddol bwysig wrth i blant fynd yn hŷn.

Mae'r cysyniad o gyfiawnder gofodol yn cydweddu'n dda gyda'r ffocws ar greu lleoedd yn PCC. Mae hefyd yn cyd-daro gyda'r syniad o 'gynefin', a gyflwynir yn y *Cwricwlwm i Gymru 2022*. Mae'r ddau'n ddefnyddiol wrth edrych y tu hwnt i ddim ond elfennau technegol dylunio. Diffinnir 'cynefin' fel:

"Y man ble rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, ble mae'r bobl a'r dirwedd o'n hamgylch yn gyfarwydd, a ble mae'r hyn yr ydym yn ei weld a'i glywed yn galonogol gyfarwydd. Er ei fod yn cael ei gyfieithu'n aml i 'habitat' yn Saesneg, mae cynefin yn fwy na dim ond lleoliad mewn ystyr ffisegol neu ddaearyddol: cynefin yw'r man hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n dal i ffurfio'r gymuned sy'n byw yno."⁵²

Er mwyn i bob plentyn deimlo eu bod yn perthyn, mae angen iddyn nhw allu arfer rhyddid bob dydd i symud o gwmpas eu cymdogaethau'n ddiogel a chwarae a chwrdd â ffrindiau.

Cyfiawnder gofodol a pholisi Llywodraeth Cymru

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi galluogi awdurdodau lleol i archwilio a mynd i'r afael â materion cyfiawnder gofodol ar gyfer plant. Fel y soniwyd yn adran 5.1, mae partneriaethau allweddol lleol gyda chynllunio, tai, priffyrdd, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, mannau agored, rheolwyr canol trefi, Cynghorau Tref a Chymuned, yr heddlu a phobl broffesiynol eraill y mae eu gwaith yn ymwneud â dylunio, rheoli a threfnu gofod cyhoeddus. Gallai cyfeiriadau cryfach a mwy diamwys at y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn y cyfarwyddyd sy'n berthnasol i bolisiau gofodol, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wneud gweithio partneriaeth ar lefel leol yn llawer haws.⁵³

Fe ellir, ac fe ddylid, mwyaflu'r synergedd rhwng buddiannau Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a weithredir yn llwyddiannus a nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, trwy ganllawiau sy'n fwy diamwys ar gyfer datblygiad cynlluniau llesiant.

Mae PCC yn ganolog i gyfiawnder gofodol ar gyfer plant. Mae'r prif nod o sicrhau lles trwy greu lleoedd yn arddangos awydd i symud tuag at gynllunio'n seiliedig ar ddigonolrwydd cyfleoedd i chwarae, fel y diffinnir yn y cyfarwyddyd statudol *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*.

Yn ogystal, mae cysylltiadau agos rhwng y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cyfiawnder gofodol a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r cyfarwyddyd⁵⁴ sy'n dod gyda'r ddeddf yn cydnabod bod llwybrau sy'n addas ar gyfer cerdded yn addas hefyd ar gyfer chwarae, ac y gall llwybrau deniadol gynnwys mannau chwarae ffurfiol neu anffurfiol neu seilwaith gwyrdd.

Mae'r egwyddor sylfaenol o greu lleoedd trwy les mewn polisiau cynllunio'n cefnogi cyfiawnder gofodol i blant yn gryf, a dylid ymdrechu i gefnogi awdurdodau lleol (ac, ble fo'n berthnasol, Gynghorau Tref a Chymuned) i ddod â chynllunwyr a staff digonolrwydd chwarae at ei gilydd. Dylid annog ymgysylltu â'r egwyddorion a'r cyfarwyddyd yn y polisiau hyn ar lefel leol yn ogystal â lefel genedlaethol.

Mae'r pandemig wedi "cadarnhau'r angen am strydoedd wedi'u dylunio'n dda, ac sy'n gyfeillgar at bobl".⁵⁵ Yn ogystal, mae ffocws PCC ar gyflawni lles trwy greu lleoedd yn golygu y byddai gweithio llawer agosach rhwng y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, y system gynllunio a pholisiau gofodol eraill yn waith buddiol i bawb tuag at ein hadferiad wedi'r pandemig.

Argymhelliad allweddol 7: Sicrhau bod yr hawl i chwarae wedi ei hymgorffori yn ddigonol mewn offerynnau a phenderfyniadau polisi strategol.

Argymhelliad allweddol 8: Sicrhau bod egwyddor chwarae fel mater o gyfiawnder gofodol yn cael ei chydabod a'i deall trwy *Bolisi Cynllunio Cymru*.

Argymhelliad allweddol 9: Sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau plant yn hysbysu'r ffyrdd y mae cymdogaethau'n cael eu cynllunio a'u rheoli.

5.4 Thema 4: Darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae

Ystyriodd y grŵp llywio'r cyd-destun cyfredol yn ogystal ag ystod o faterion hanesyddol sy'n ymwneud â rheoleiddio a chofrestru darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio. Fe

archwiliodd ffyrdd i wella systemau rheoleiddiol fel y gall mwy o blant deimlo'n ddiogel yn yr ystod o gyfleoedd y maent yn eu mwynhau yn eu hamser rhydd.

Wrth gyfrannu at yr adolygiad hwn, mae'r plant wedi dweud eu bod angen "mannau i fynd iddynt sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus a diogel"⁵⁶. Dywedodd y plant hefyd y gall diffyg darpariaeth ar gyfer gwasanaethau chwarae, hamdden a gwaith ieuenctid effeithio'n negyddol ar eu lles ac iechyd meddwl. Mae darpariaeth gwaith chwarae mewn cymdogaethau yn cynnig cyfleoedd i blant chwarae gyda'i gilydd, wedi'u cefnogi gan weithwyr chwarae deallus a medrus ac mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer gofal plant anffurfiol a ffurfiol ar gyfer rhieni.

Mae gwaith chwarae'n cael ei ddiffinio yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*⁵⁷ fel "proffesiwn medrus iawn sy'n cyfoethogi ac yn gwella chwarae plant. Mae'n digwydd ble mae oedolion yn cefnogi chwarae plant ond nid yw'n cael ei yrru gan ganlyniadau addysg neu ofal rhagnodedig". Mae'r diffiniad hwn yn egluro'n gwbl blaen bod gweithwyr chwarae'n ymwneud yn bennaf â chefnogi a hwyluso chwarae plant.

Gall darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio ddigwydd mewn amrywiol lleoliadau, yn cynnwys, clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol, cynlluniau chwarae mynediad agored, meysydd chwarae antur, meithrinfeydd dydd, clybiau ieuenctid ac ysgolion. Mae gwaith chwarae mynediad agored, clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol a lleoliadau gofal plant sy'n rhedeg am fwy na dwy awr y dydd neu fwy na chwe diwrnod y flwyddyn yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Ni ellir cofrestru unrhyw ddarpariaeth sydd ddim yn cyflawni'r amod hon. Nid oes system ar gyfer cofrestru gwirfoddol.

Mae rhanddeiliaid wedi datgan mai un o brif ddibenion rheoleiddio ar gyfer gofal plant y tu allan i oriau ysgol a lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored yw sicrhau eu bod yn cyflawni hawliau plant ac yn cydymffurfio â gofynion, yn cynnwys bod â staff sy'n meddu ar gymwysterau priodol. Yn ystod yr adolygiad, cefnogodd plant yr egwyddor o reoleiddio'n gryf a datgan y dylai pob lleoliad ddilyn côd ymddygiad a bod yn gyfrifol am ddiogelu trwy fynychu hyfforddiant priodol a chael eu cofrestru gyda chyrrff fel Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)⁵⁸.

Amlygodd yr adolygiad nifer o heriau yn y ffordd y mae lleoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol a gwaith chwarae mynediad agored yn cael eu harchwilio a'u rheoleiddio ar hyn o bryd. Crynhoir y rhain yma:

- Sut y mae amrywiaeth o leoliadau / amgylchiadau wedi'u heithrio rhag eu rheoleiddio o dan Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd)⁵⁹. Mae angen darlun llawer cliriach o effaith yr eithriadau ac eglurder ar gyfer lleoliadau am beth a olygir wrth hyfforddi a dysgu. At hynny, mae angen gwell dealltwriaeth o drefniadau diogelu mewn lleoliadau gaiff eu cwmpasu gan y Gorchymyn Eithriadau. Mae hwn yn faes cymhleth a cheir mwy o gyd-destun yn y papur cefndir.
- Sut y mae'r rheoliadau a'r Gorchymyn Eithriadau'n effeithio ar ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r eithriad sy'n caniatáu i leoliad newid ei ddiben o chwarae i chwaraeon / celf a chreffft i osgoi cael ei reoleiddio.
- Os oes angen i rai gofynion ar gyfer gofal plant y tu allan i oriau ysgol a lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored fod yn wahanol i rai lleoliadau gofal plant eraill a reoleiddir.

- Os dylid addasu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored, yn cynnwys ystyriaeth o SGC unigol ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored.
- Os oes angen proses arolygu fwy cymesur sy'n adlewyrchu'n well ymarfer mewn gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn ogystal â lleoliadau darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut i reoleiddio ac archwilio darpariaeth dymhorol (cynlluniau chwarae gwyliau) yn effeithiol, o ystyried y gallai weithredu am gyn lleied â dwy wythnos y flwyddyn. Archwilir sut i symud at agwedd mwy cymesur ymhellach yn y papur cefndir. Byddai'n cynnwys edrych ar: amllder archwiliadau, rhwyddineb cofrestru, lefel y gwaith papur a mabwysiadu dull o gynnal dim ond 'arolygon arbennig' wedi'r cofrestrriad cychwynnol.
- Sut i reoleiddio sefydliadau sy'n cynnig darpariaeth gwaith chwarae o nifer o wahanol safleoedd, yn enwedig prosiectau peripatetig.
- Sut i sicrhau bod arolygwyr yn meddu ar wybodaeth a phrofiad o'r ffyrdd unigryw y mae gwaith chwarae mynediad agored a gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn gweithredu, yn cynnwys cynyddu eu cymhwysedd galwedigaethol mewn gwaith chwarae.

Tua diwedd cyfnod paratoi yr adroddiad hwn, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar rai o'r safonau sydd wedi'u cynnwys yn y SGC ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Bydd ymatebion y sector gwaith chwarae'n helpu i bennu'r cyd-destun ar gyfer ystyriaeth bellach o'r drefn reoleiddiol a'r SGC ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

Argymhelliad allweddol 10: Sicrhau bod trefniadau diogelu digonol mewn lleoliadau gwaith chwarae.

Argymhelliad allweddol 11: Adolygu rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd a gorchmynion sy'n ymwneud â gwaith chwarae.

5.5 Thema 5: Y gweithlu a chymwysterau

Trafododd y grŵp llywio rôl werthfawr gwaith chwarae a materion sy'n ymwneud â hyfforddiant a chymwysterau. Fe bwysleisiodd hefyd bwysigrwydd datblygiad proffesiynol ar gyfer ystod eang o bobl broffesiynol eraill sy'n effeithio ar chwarae plant.

Mae Llywodraeth Cymru'n gosod gwerth mawr ar sicrhau bod y bobl hynny y mae eu gwaith yn effeithio ar chwarae plant yn meddu ar wybodaeth a sgiliau addas, a chymwysterau priodol. Mae *Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar*⁶⁰ 10 mlynedd o hyd Llywodraeth Cymru, yn mynegi'r weledigaeth ar gyfer y sector.

Yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*⁶¹, mae Llywodraeth Cymru'n mynnu y dylai awdurdodau lleol gefnogi datblygiad y gweithlu. Mae hyn yn cwmpasu cynnwys a hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill sydd yn y gweithlu plant, gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned.

Mae *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae* yn gwahaniaethu rhwng y gweithluoedd sydd ynghlwm â chefnogi chwarae plant. Mae'r gweithlu gwaith chwarae (oedolion sy'n hwyluso chwarae plant yn uniongyrchol) a'r gweithlu chwarae (pawb y mae eu gwaith yn effeithio ar blant) yn wahanol ac mae eu gofynion proffesiynol yn amlwg. Mae'r adolygiad hwn, tra'n canolbwyntio ar anghenion a

gofynion y gweithlu gwaith chwarae, yn ystyried hefyd angen diddarfod y gweithlu chwarae ehangach am Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Archwilir amrywiaeth y gweithlu chwarae o dan yr is-bennawd Gweithlu chwarae isod ac yn y papur cefndir.

Gall darpariaeth gwaith chwarae ddigwydd mewn amrywiol leoliadau, yn cynnwys gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant, ysgolion, ysbytai a gwaith ieuencid. Mae gan rai o'r proffesiynau hyn eu systemau cymwysterau eu hunain hefyd – er enghraifft, gwaith ieuencid, arbenigwyr chwarae mewn ysbytai ac ysgolion. Yn yr achosion hyn, gall cymwysterau gwaith chwarae gefnogi a chyfoethogi ymarfer.

Cymwysterau gwaith chwarae a chyllid

Yng Nghymru, mae cymwysterau gwaith chwarae wedi'u datblygu yn erbyn cyfres o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)⁶². Bwriedir y cymwysterau ar gyfer pawb sy'n gweithio mewn rolau gwaith chwarae mewn lleoliadau a reoleiddir. Mae'r SGC yn datgan bod cymwysterau ar gyfer gwaith chwarae wedi'u cynnwys yn y *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru*⁶³ a gynhyrchir gan y Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru). Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu datblygiad cyfres o gymwysterau gwaith chwarae a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru gydag Agored Cymru. Trwy'r rhaglenni Prentisiaeth bob oed a Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu trosglwyddiad cymwysterau gwaith chwarae gan ystod o wahanol sefydliadau a chyrrff dyfarnu.

Mae'r sector gwaith chwarae'n wynebu heriau wrth gyflawni rhai o'r gofynion cymwysterau ac adlewyrchu amrywiaeth Cymru. Mae materion penodol yn cynnwys:

- Mynediad i hyfforddiant a ariennir, yn enwedig pan ddaw'r cyllid Ewropeaidd cyfredol (y rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant) i ben yn 2023.
- Argaeledd cyrsiau ar yr adegau ac yn y lleoliadau y mae eu hangen.
- Gallu cyflogwyr i ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant.
- Gofynion sectoraidd sy'n cystadlu â'i gilydd ble gallai 'gweithwyr portffolio' fod angen cymwysterau eraill fel gofal plant a gwaith ieuencid i weithio'n llawn amser gyda phlant.
- Diffyg sylweddol o gynrychiolaeth gweithwyr chwarae anabl ac o leiafrifoedd ethnig.
- Tâl cymharol isel. Nid oes strwythur tâl a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer gwaith chwarae, felly mae graddfeydd tâl yn amrywio ar draws lleoliadau ac yn rhanbarthol ac mae hyn yn effeithio ar fuddsoddi mewn cymwysterau.
- Isadeiledd gwan o diwtoriaid gwaith chwarae galwedigaethol gymwys.
- Diffyg tiwtoriaid, aseswyr ac arolygwyr sicrhau ansawdd mewnol cyfrwng Cymraeg.
- Darpariaeth dymhorol sydd, efallai, ond yn rhedeg am ychydig wythnosau'r flwyddyn ac sydd, o ganlyniad, yn recriwtio yn flynyddol.
- Cymhwysedd galwedigaethol rheolwyr llinell i gefnogi dysgwyr mewn lleoliad penodol.
- Yr angen am gyfleoedd ar gyfer DPP a gwerth hyn i ymarferwyr a'u cyflogwyr.

Cefnogi a chynrychioli'r sector

Yn 2002 sefydlwyd cynghorau sgiliau sector i hwyluso arweinyddiaeth strategol gyda llywodraethau ledled y DU, a'r ddatblygu, gweithredu a sicrhau ansawdd cymwysterau gwaith chwarae. Fodd

bynag, nid yw ôl troed y cynghorau sgiliau sector yn bodoli bellach. Pan wnaethpwyd y penderfyniad i beidio eu hariannu, fe wnaeth y cynghorau un ai chwalu neu droi'n fusnesau yn gwerthu cynnyrch a gwasanaethau. Yn 2014, cyfeiriodd Ken Skates, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar y pryd, at symud tuag at sefydlu consortia sgiliau rhanbarthol o dan y *Datganiad polisi ar sgiliau*. O hyn ymlaen, cafodd y sector Gwaith Chwarae, ynghyd â sectorau eraill, eu hadnabod fel sector amddifad.

Sefydlwyd PETC Cymru⁶⁴ (Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru) yn 2008 i ddarparu fforwm i'r sector drafod materion o bwys strategol ar bob agwedd o addysg, hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a PETCs cenedlaethol eraill yn y DU.

Mae absenoldeb cyngor sgiliau sector gweithgar, penodol ar gyfer gwaith chwarae wedi ei deimlo'n enbyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae PETC Cymru wedi ymgymryd ag elfennau sylweddol o'r rôl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn agwedd gynaliadwy na digon strategol yn y tymor hir. Yn y papur cefndir, archwilir nifer o opsiynau posibl ar gyfer cynrychioli'r sector ar gyfer gwaith chwarae. Bydd angen ystyried a chloriannu oblygiadau pob un yn fanwl.

Gweithlu chwarae

Mae'r gweithlu chwarae yn grŵp amrywiol dros ben, ac nid yw'r mwyafrif ohonynt angen cymwysterau ffurfiol mewn chwarae i gyflawni eu rolau. Mae'r ystod o randdeiliaid sy'n cael eu cwmpasu gan y diffiniad 'gweithlu chwarae' yn cynnwys y bobl hynny y mae eu rôl yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar yr amrywiol Faterion a ddiffinnir yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gweithio mewn cynllunio, tai, mannau agored, parciau, gwasanaethau diwylliannol, gwasanaethau amgylcheddol, addysg, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, iechyd, teithio, priffyrdd, datblygu cymunedol, gwasanaethau ieuencid, hamdden a chwaraeon ar draws wasanaethau statudol. Mae hefyd yn cynnwys ystod o sefydliadau trydydd sector a gall hefyd gynnwys rhanddeiliaid eraill, fel yr heddlu.

Ar hyn o bryd, mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol yn tueddu i fod ar gyfer cymwysterau ffurfiol yn hytrach na hyfforddiant a DPP. Byddai'r gweithlu chwarae ehangach yn elwa o gael mynediad i ystod eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n ymwneud â chwarae, gwaith chwarae a digonolrwydd chwarae, fel sy'n briodol i'w rolau. Gallai hyn fod ar ffurf hyfforddiant, rhaglenni datblygiad proffesiynol, yn adnoddau ar-lein ac wedi'u hargraffu neu gynadledau amlasiantaethol.

Argymhelliad allweddol 12: Datblygu isadeiledd strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu gwaith chwarae.

Argymhelliad allweddol 13: Sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer datblygu'r gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.

5.6 Thema 6: Chwarae ac addysg

Ystyriodd y grŵp llywio yr amrywiol bolisiau cenedlaethol a'r mentrau trosglwyddo sy'n cefnogi plant i gael mynediad i'w hawl i chwarae ar draws lleoliadau addysgol. Amlygodd y

trafodaethau'r angen i sicrhau bod chwarae'n cael ei werthfawrogi yn y lleoliadau hyn, nid yn unig ar gyfer deilliannau addysg cyfrannol, ond hefyd ar gyfer y buddiannau lles uniongyrchol y mae'n ei gynnig i blant o bob oed.

Mae tystiolaeth ryngwladol empirig yn awgrymu bod mentrau amser chwarae ysgolion a anelir at gyfoethogi cyfleoedd i chwarae'n gysylltiedig ag ystod o welliannau mewn:

- sgiliau academaidd
- agweddau
- talu sylw
- ymddygiad
- sgiliau cymdeithasol
- perthnasau cymdeithasol rhwng gwahanol grwpiau o blant
- mwynhau ac ymgynffwrddio'n well â bywyd ysgol.⁶⁵

Mae plant o bob oed yn teimlo mai ysgolion a'r sector addysg sy'n gyfrifol am sicrhau bod ganddynt gyfleoedd digonol i chwarae. Maen nhw'n gwbl glir nad yw chwarae ond yn bwysig ar gyfer plant yn yr ysgol gynradd, ond maent yn awgrymu hefyd y dylai'r adolygiad hwn ystyried amser chwarae neu amser egwyl ar gyfer plant hŷn 12 i 18 oed mewn ysgolion a cholegau.⁶⁶

Mae *Sylw Cyffredinol rhif 17* yn cyfeirio at werth cyfrannol chwarae fel modd pwysig y bydd plant yn dysgu trwyddo. Gall darparu amgylchedd addysgu a dysgu eang a chytbwys, tra hefyd yn cwmpasu iechyd a lles y plentyn, o bosibl arwain at brofiad dysgu gwell a mwy cadarnhaol.

Mae Llywodraeth Cymru⁶⁷ yn nodi bod ysgolion yn darparu cyfle pwysig i blant chwarae. Mae Aseidiadau Digonolrwydd Chwarae'n asesu i ba raddau y mae ysgolion yn darparu amser a lle i chwarae, yn ystod y diwrnod ysgol a'r tu allan i oriau ysgol hefyd.

Mae nifer o bolisiau addysg cenedlaethol yn ystyried chwarae, y cwricwlwm ac addysgeg addysgol:

- Cafodd y cyfnod sylfaen ar gyfer plant tair i saith mlwydd oed ei seilio ar yr egwyddor o ddysgu trwy chwarae ac mae'n dal i fod yn elfen hanfodol o'r Cwricwlwm i Gymru⁶⁸ newydd.
- Mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd yn cael ei fabwysiadu ar draws ysgolion a lleoliadau yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar yr agwedd a'r egwyddorion a ddatblygir trwy'r cyfnod sylfaen. Mae canllaw *Cynllunio eich cwricwlwm*⁶⁹, a gyhoeddwyd ar-lein yn Ionawr 2022, yn rhestru chwarae, dysgu seiliedig ar chwarae ac amser y tu allan fel nodweddion allweddol addysgeg lwyddiannus a galluogi dysgu trwy'r ysgol.
- Mae *Agor Llwybrau*, canllawiau ychwanegol ar gyfer dysgwyr yn y cyfnod dysgu sy'n arwain at Gam Cynnydd 1, yn pwysleisio bod rhaid ystyried chwarae a dysgu chwareus pan fydd ysgolion neu leoliadau'n llunio eu cwricwlwm newydd.
- Mae Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir⁷⁰ sy'n trosglwyddo addysg i blant tair a phedair oed yn cydnabod mai chwarae yw'r prif gyfrwng ar gyfer dysgu i'n plant ieuengaf.
- Mae Llywodraeth Cymru'n symud tuag at agwedd Addysg a Gofal Plentynod Cynnar (ECEC), sy'n dwyn ynghyd bob agwedd o addysg a gofal plentynod cynnar i gefnogi anghenion holistig y plentyn.
- Mae'r *Polisi Ysgolion Bro* yn ymgysylltu â theuluoedd ac yn gweithio gyda'r gymuned ehangach i gefnogi pob disgybl, yn enwedig rhai sy'n cael eu anfanteisio gan dlodi.

- Mae'r cynllun adnewyddu a diwygio⁷¹ yn amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cefnogi dysgwyr ac ymarferwyr fel rhan o'r adferiad wedi COVID-19. Mae rhagair y gweinidog yn sôn yn benodol am sut y mae dysgwyr "angen amser a chyfleoedd i chwarae a chymdeithasu â'i gilydd".

Strwythur y diwrnod: amser a chaniatâd i chwarae

Dynododd adolygiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae 2019⁷² bod amser chwarae yn yr ysgol yn lleihau ar draws awdurdodau lleol, er gwaethaf ymdrechion i fynd i'r afael â hyn yn lleol. Mae pryderon ynghylch llai o gyfleoedd i chwarae, yn enwedig ar gyfer grwpiau bregus, wedi'u hamlygu gan Adran Seicolegwyr Addysg a Phlant Cymdeithas Seicolegol Prydain yn eu papur sefyllfa *Right to Play Position Paper*⁷³, ac mae pwysau'r cwricwlwm wedi arwain at lai o gyfleoedd ar gyfer chwarae mewn ysgolion⁷⁴.

Trafododd y grŵp llywio gynnydd mewn pryderon ymhlith rhieni am gwtogi'r diwrnod ysgol sydd wedi arwain at lai o amser chwarae, a hefyd, ddal amser chwarae'n ôl fel rhan o bolisi rheoli ymddygiad. Nododd y grŵp llywio bod Fframwaith Llywodraeth Cymru ar wreiddio agwedd ysgol gyfan tuag at les emosiynol a meddyliol⁷⁵ yn egluro'n blaen na ddylid dal chwarae'n ôl oddi wrth blant yn yr ysgol fel math o gosb.

Lle i chwarae yn ystod a'r tu allan i oriau ysgol

Mae ymchwil i ymyriadau all wella amserau chwarae yn dangos eu bod fwyaf effeithlon pan:

- mae gan ysgolion bolisiau clir
- mae staff sy'n goruchwyllo amserau chwarae yn gyfarwydd gyda dulliau gwaith chwarae
- y darperir amgylchedd chwarae ffisegol cyfoethog.⁷⁶

Mae adroddiad *Iach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion* Estyn⁷⁷ yn tanlinellu bod yr ysgolion hynny sy'n defnyddio agwedd ysgol gyfan tuag at gefnogi iechyd a lles yn cynnwys darparu amgylchedd, cyfleusterau a gofod i chwarae, cymdeithasu ac ymlacio'n ystod amserau egwyl.

Mae'n amlwg, i ysgolion, bod pryderon ynghylch diogelwch yn effeithio ar eu cefnogaeth o chwarae plant. Mae plant yn adrodd am gael eu hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae traddodiadol, oherwydd bod oedolion yn eu hystyried yn "rhy beryglus".⁷⁸ Mae datganiad lefel uchel Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), *Children's Play and Leisure – promoting a balanced approach*, yn cydnabod pwysigrwydd chwarae a chyfleoedd i gymryd risg wrth chwarae. Mae'r HSE yn egluro nad dileu risg yw'r nod, ond pwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau.⁷⁹ Nododd y grŵp llywio y gellid defnyddio'r datganiad lefel uchel yn fwy effeithiol ac yn fwy eang mewn lleoliadau addysg.

Fel rhan o'r broses Asesiadau Digonolrwydd Chwarae, mae rhaid i awdurdodau lleol ystyried i ba raddau y mae ysgolion yn darparu cyfleoedd i chwarae y tu allan i oriau ysgol. Nododd trafodaethau'n ystod yr adolygiad hwn bod ysgolion yn wynebu nifer o gyfyngiadau y bydd rhaid eu goresgyn os y defnyddir eu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau heblaw'r brif swyddogaeth o

addysgu disgyblion. Fodd bynnag, mae'r buddiannau posibl o ran ymgysylltu a lles cymunedol, yr effeithiau positif ar iechyd a hapusrwydd plant, a chyfoethogi'r ymdeimlad lleol o gymuned yn gwneud yr ymdrech o fynd i'r afael a'r cyfyngiadau hyn yn werth chweil.

Argymhelliad allweddol 14: Hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a'r defnydd o diroedd ysgol fel ased cymunedol ar gyfer chwarae trwy'r polisi ysgolion bro.

Argymhelliad allweddol 15: Cynyddu a gwella amserau chwarae ac egwyl mewn ysgolion.

6 Casgliad

Mae'r holl dystiolaeth a ystyriwyd trwy broses yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn cadarnhau'r un pwynt: bod chwarae o fudd i blant, teuluoedd a'r cymdogaethau y maent yn byw ynddynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain yn fyd-eang ar chwarae trwy ddatblygu polisiâu arloesol, cyhoeddi deddfau a dyrannu cyllid ar gyfer chwarae. Nawr, mae gwir angen cynnal y momentwm hwn ac adeiladu ar y gwaith yma trwy fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adolygiad hwn.

Dylid parhau â'r cynsail sefydledig o ddyraniad ariannu uniongyrchol ar gyfer chwarae gan Lywodraeth Cymru. Dylid ei ddatblygu i ddarparu ffynhonnell ariannu gyson a phenodedig ar gyfer digonolrwydd chwarae. Bydd cyllid a ymrwymir dros gyfnod o flynyddoedd yn fodd mwy effeithlon o alluogi datblygu agweddau strategol tuag at drosglwyddo digonolrwydd chwarae. Bydd criteria cwbl glir ynghylch pa ddarpariaeth sy'n gymwys yn caniatáu amser digonol ar gyfer ymgynghori, cynllunio, a chyflogi staff o flwyddyn-i-flwyddyn.

Mae angen atgyfnerthu a sicrhau adnoddau ar gyfer yr isadeiledd cenedlaethol ar gyfer cefnogi chwarae, datblygu chwarae a digonolrwydd chwarae ledled Cymru er mwyn wynebu'r heriau hyn. Bydd ariannu uniongyrchol ar gyfer swyddogion arweiniol digonolrwydd cyfleoedd chwarae ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru'n gryn gymorth i awdurdodau lleol weithredu'r ystod eang o bolisiâu Llywodraeth Cymru a drafodir yn adroddiad yr *Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae*. Dylid defnyddio'r rhaglen ariannu hefyd i bwysleisio ac atgyfnerthu rôl y sector chwarae gwirfoddol. Bydd hyn yn darparu'r gefnogaeth y mae ei hangen i fabwysiadu rolau strategol yn ogystal â rolau trosglwyddo wrth sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

Mae agwedd seiliedig ar hawliau Llywodraeth Cymru tuag at lunio polisiâu sy'n ymwneud â phlant yn caniatáu i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae fynegi'n groyw werth cynhenid chwarae fel hawl. Mae hyn yn eistedd ochr-yn-ochr â gwerth mwy cyfrannol ei rôl wrth gyfrannu at agendâu polisi eraill – er enghraifft, trechu tlodi plant, iechyd a lles, dysg a datblygiad, a chydlynid cymunedol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu agwedd gydlynol, gan helpu i greu'r Gymru yr ydym i gyd am fyw ynddi, yn awr ac i'r dyfodol. Mae gweithrediad llwyddiannus y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n alinio'n dda gyda phum dull o weithio'r ddeddf a'i saith nod llesiant. Dylid cynnwys y ddyletswydd yn amlwg mewn cyfarwyddyd ar gyfer asesiadau lles ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn helpu gyrff cyhoeddus i ddynodi a chyflawni nodau lles ar gyfer plant a chymunedau.

Mae angen arweiniad ar lefel genedlaethol. O ystyried potensial y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i fynd i'r afael ag agendâu polisi cymdeithasol eraill, mae rhaid gwneud mwy i hyrwyddo'r ddyletswydd. Mae angen gwneud hyn trwy Lywodraeth Cymru ac adrannau awdurdodau lleol, yn ogystal ag ymhlith cyrff cenedlaethol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a'r cyhoedd.

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n drawsadrannol er mwyn sicrhau bod natur trawsbynciol chwarae'n cael ei gydnabod a'i wreiddio mewn polisiâu, arferion a ffrydiau cyllido cenedlaethol. Caiff y dull gweithio hwn ei gefnogi gan sefydlu strategaeth digonolrwydd chwarae traws-bolisi a grŵp monitro fydd yn adolygu blaenoriaethau cenedlaethol, cynhyrchu a monitro camau gweithredu strategol ac adrodd yn ôl i weinidog.

Mae'r weledigaeth a'r ymrwymiad i chwarae plant wedi'u cynnwys eisoes ym mhortffolio'r Gweinidog Cymreig sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc. Mae'r Adolygiad hwn wedi amlygu pwysigrwydd sicrhau bod gan y Gweinidog oruchwyliaeth benodol o weithio traws-bolisi rhwng chwarae a meysydd polisi eraill. Bydd cydweithredu traws-bolisi yn cefnogi cynlluniau adfer ar ôl COVID-19 ac yn cyfrannu at fframwaith polisi cydlynol ar gyfer chwarae yng Nghymru.

Bydd datblygu agwedd fwy strategol tuag at hyrwyddo cyfleoedd i chwarae ar gyfer pob plentyn yng Nghymru yn helpu rhanddeiliaid i gefnogi mwy o blant i wireddu eu hawl i chwarae. Ar yr un pryd, bydd hefyd yn gweithio tuag at agendâu polisi ehangach, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae angen gweithredu'r argymhellion hyn ar frys er mwyn creu amgylchedd mwy cynaliadwy ar gyfer trosglwyddo cyfleoedd ar gyfer chwarae plant yng Nghymru. Mae'n anochel y bydd cost yn gysylltiedig gyda gweithredu'r argymhellion hyn, ond o ystyried pwysigrwydd chwarae i iechyd a lles plant mae'n bris sy'n werth ei dalu.

7 Argymhellion allweddol a cherrig milltir awgrymedig

Mae'r tabl isod yn rhestru'r 15 argymhelliad allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Mae'r argymhellion hyn wedi eu hystyried ar draws y chwe thema a chefnogir pob un gan nifer o gerrig milltir awgrymedig.

Y cerrig milltir awgrymedig yw'r camau arfaethedig ar gyfer symud tuag at droi argymhelliad allweddol yn realiti a dylid eu hystyried fel rhan o'r argymhellion.

Yn olaf, mae'r grŵp llywio wedi dynodi'r canlyniadau disgwylidig o gwblhau'r argymhellion allweddol a'r cerrig milltir hyn a nodir y rhain o dan y pennawd Yr hyn fydd yn newid.

Argymhelliad allweddol 1

Mabwysiadu agwedd strategol tuag at ddigonolrwydd chwarae ar draws holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru.

Cerrig milltir awgrymedig

- Dylai chwarae fod yn ganolog i bortffolio'r Gweinidog Cymreig sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc, gyda goruchwyliaeth o weithio traws-bolisi rhwng chwarae a meysydd polisi eraill.
- Sefydlu strategaeth digonolrwydd chwarae traws-bolisi a grŵp monitro, sy'n cwrdd yn flynyddol i adolygu blaenoriaethau cenedlaethol. Bydd y grŵp yn cynhyrchu a monitro cynllun gweithredu yn erbyn argymhellion allweddol ac adrodd i'r gweinidog.
- Datblygu a chynnal polisi chwarae byw a dogfen mapio deddfwriaethau sy'n cefnogi a chynnal y cysylltiadau rhwng chwarae a meysydd polisi eraill ar lefel genedlaethol.
- Dynodi eiriolwyr chwarae adrannol ar draws feysydd polisi.
- Sicrhau bod deddfwriaeth digonolrwydd cyfleoedd chwarae'n cael ei chynnwys yn groyw mewn canllawiau polisi eraill er mwyn sicrhau craffu traws-bolisi yn genedlaethol a gweithredu traws-bolisi yn lleol.
- Sicrhau bod polisiâu newydd ac egin-bolisiâu megis y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chynlluniau sy'n mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn cael eu hadlewyrchu mewn cyfarwyddyd digonolrwydd cyfleoedd chwarae a chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae chwarae'n cael ei ystyried yn strategol gan Gabinet Llywodraeth Cymru. Mae materion sy'n effeithio ar gyfleoedd i chwarae'n cael eu hystyried yn strategol yn natblygiad polisi Llywodraeth Cymru.
- Mae datblygiad polisi cenedlaethol yn cael ei fonitro yn erbyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
- Mae cyfraniad digonolrwydd cyfleoedd chwarae i bolisiâu ac agendâu eraill yn cael ei gydnabod yn groyw mewn canllawiau a chynlluniau.
- Mae gwell cydweithrediad ar draws y sectorau gwaith ieuenctid a gwaith chwarae ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.
- Mae aliniad polisi ar lefel leol yn cael ei gefnogi'n well, ac mae amrywiaeth cyd-destunau lleol yn cael ei ystyried mewn cynlluniau.

- Mae egin-bolisiau a pholisiau esblygol fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chynlluniau sy'n mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur i gyd yn ystyried y materion sy'n effeithio ar chwarae.
-

Argymhelliad allweddol 2

Sicrhau bod offerynnau polisi Llywodraeth Cymru'n cynnwys mesurau i gefnogi gallu plant i wneud y gorau o gyfleoedd i chwarae.

Cerrig milltir awgrymedig

- Adolygu, adfywio ac ail-lansio cyfarwyddyd statudol *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*.
- Diweddarau'r *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae* i adlewyrchu datblygiadau diweddar yn y broses adolygu. Dylai hyn gynnwys offerynnau i ddatblygu a chyhoeddi asesiad digonolrwydd cyfleoedd chwarae sy'n gyfeillgar at blant. Dylid hefyd gynnwys chwarae fel mater o gyfiawnder gofodol.
- Datblygu cyfarwyddyd diamwys a diweddarau'r *Templed Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae*, i sicrhau system adrodd gyson sy'n adlewyrchu amrywiaeth o gyd-destunau digonolrwydd chwarae ar draws awdurdodau lleol.
- Defnyddio adolygiad yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae i dynnu sylw at faterion sydd wastad yn heriol i awdurdodau lleol sicrhau cynnydd arnynt (fel yswiriant, cynhwysiant, recriwtio, cymwysterau a chadw staff).
- Dynodi a gweithredu ymyriadau sy'n cefnogi datrysiadau i'r heriau hyn (a restrir uchod).

Yr hyn fydd yn newid

- Mae hawl plant i chwarae'n cael ei chydabod fel thema sy'n traws-dorri o fewn meysydd polisi a rhaglenni a ariennir sy'n cael eu hanelu at blant, teuluoedd a chymunedau.
 - Mae Awdurdodau Lleol yn cael eu cefnogi'n well i asesu a sicrhau cyfleoedd digonol i chwarae.
 - Mae canfyddiadau ymchwil, adolygiadau o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a barn plant i gyd yn cael eu hymateb iddynt.
 - Mae prosesau monitro'n adlewyrchu bod digonolrwydd cyfleoedd chwarae'n broses a'i fod yn ymwneud â chreu'r amodau ar gyfer chwarae, yn hytrach na dim ond darparu data meintiol.
-

Argymhelliad allweddol 3

Sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer adfer wedi'r pandemig a'r argyfwng costau byw yn ystyried hawl plant i chwarae.

Cerrig milltir awgrymedig

- Ystyried y gwaith arolygon a gynhaliwyd gyda phlant ar gyfer Asesiadau Digonolrwydd Chwarae ac astudiaethau eraill.

- Ystyried canfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, *Gwarchod y dyfodol – Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio*, i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag effaith y pandemig ar ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae.
- Sicrhau bod y gefnogaeth i helpu awdurdodau lleol i gynllunio a darparu ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae cynaliadwy yn eu harwain hefyd i ddefnyddio data o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae.
- Ystyried effaith mentrau neu raglenni a ariennir o'r newydd sydd wedi'u dylunio i gefnogi adferiad wedi COVID-19 ac allai orgyffwrdd â neu ddyblygu darpariaeth gwaith chwarae sy'n bodoli eisoes.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae pwysigrwydd chwarae plant ar gyfer eu hiechyd a'u lles yn cael ei gydnabod.
- Mae cynaliadwyedd gwaith chwarae'n cael ei ystyried a'i wynebu.

Argymhelliad allweddol 4

Sicrhau bod cyllid ac adnoddau digonol ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol yn ei chyfanrwydd.

Cerrig milltir awgrymedig

- Dynodi ffrwd ariannu ar gyfer rôl digonolrwydd cyfleoedd chwarae dynodedig, sydd wedi'i diffinio'n gwbl eglur, ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.
- Sicrhau bod yr isadeiledd cenedlaethol, yn cynnwys y rôl a ddarperir gan Chwarae Cymru, yn gadarn ac wedi'i hariannu'n ddigonol i gefnogi disgwyliadau cynyddol chwarae a gwaith chwarae.
- Cynnal buddsoddiad blynyddol mewn digonolrwydd cyfleoedd chwarae (fel Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan) sy'n darparu lefel isafswm o ariannu ac sy'n ymateb i anghenion sy'n codi.
- Adolygu sut y mae buddsoddiadau blynyddol (fel Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan) yn cael eu dyrannu i awdurdodau lleol. Os oes angen, adolygu'r model i alluogi dyraniad strategol gwell o gyllid sydd ar gael.
- Sicrhau bod unrhyw gyfarwyddyd sy'n dod gyda rhaglenni ariannu'n pwysleisio ac atgyfnerthu rôl cymdeithasau chwarae gwirfoddol rhanbarthol a'r sector chwarae gwirfoddol.
- Sicrhau bod unrhyw ganllawiau ar gyfer rhaglenni ariannu cyflenwol yn egluro'n blaen ble gellir defnyddio'r cyllid fel eu bod yn cefnogi chwarae, gwaith chwarae a digonolrwydd chwarae.
- Craffu ar ddyraniad rhaglenni ariannu eraill i ddynodi i ba raddau y mae chwarae, gwaith chwarae a digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn cael eu cefnogi.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae cydymffurfedd yr awdurdod lleol gyda gweithrediad y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n cael ei gefnogi.
- Mae hawl plant i chwarae'n cael ei gydnabod fel thema sy'n croestorri o fewn meysydd polisi a rhaglenni a ariennir sy'n cael eu hanelu at blant, teuluoedd a chymunedau.

- Mae agwedd strategol awdurdod lleol cyflawn tuag at ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae'n cael ei ddatblygu a'i gynnal.
 - Rydym yn delio gyda materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.
 - Mae awdurdodau lleol yn derbyn gwell cefnogaeth i weithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae trwy ddyraniad mwy strategol ariannu ac adnoddau.
 - Mae isadeiledd y sector chwarae gwirfoddol wedi cryfhau ac mewn sefyllfa well i ymgymryd â rolau strategol yn ogystal â throsglwyddo.
-

Argymhelliad allweddol 5

Cefnogi trosglwyddiad rhaglen wybodaeth i'r cyhoedd am yr hawl i chwarae.

Cerrig milltir awgrymedig

- Gweithio gyda Chwarae Cymru a darparu buddsoddiad parhaus digonol i sicrhau bod ei ymgyrch *Plentyndod Chwareus* gyda'r cyrhaeddiad ehangaf er mwyn cael yr effaith mwyaf.
- Adolygu a diweddarau gwefannau a gweithgarwch cyfathrebu eraill Llywodraeth Cymru a anelir at y cyhoedd, gan roi sylw penodol i sicrhau negeseuon cyson.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae pwysigrwydd chwarae ar gyfer iechyd a lles plant, a chydmeithas yn ehangach, yn cael ei ddeall yn well.
 - Mae pwysigrwydd chwarae'n cael ei gynnwys mewn canllawiau a chyhoeddiadau cenedlaethol.
-

Argymhelliad allweddol 6

Defnyddio'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n ehangach i gwmpasu ystod eang o gyrff eraill.

Cerrig milltir awgrymedig

- Sefydlu Siatr Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (neu debyg) a mynd ati'n weithredol i annog ymrwymiad i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gan gyrff cyhoeddus sydd heb eu cynnwys ynddi.
- Dynodi'r ystod eang o gyrff (fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd lleol, gyrff llywodraethu ysgolion, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyngorau Tref a Chymuned) y gallai'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae fod yn berthnasol iddynt yn y dyfodol.
- Ystyried yr amserlen ddeddfwriaethol er mwyn archwilio ehangu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol i gyrff eraill y tu hwn i awdurdodau lleol Cymru.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae hawl plant i chwarae'n cael ei chydabod a'i gwreiddio mewn polisïau ac arferion cenedlaethol.
 - Mae potensial y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i fynd i'r afael ag agendâu polisi cymdeithasol eraill yn cael ei wireddu.
-

Argymhelliad allweddol 7

Sicrhau bod yr hawl i chwarae wedi ei hymgorffori yn ddigonol mewn offerynnau a phenderfyniadau polisi strategol.

Cerrig milltir awgrymedig

- Ystyried sut i integreiddio a chynnwys materion sy'n ymwneud â chwarae a digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn adran Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) yr Adolygiad Asesiad Effaith Integredig.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae'r synergedd rhwng Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn cael ei gydnabod a'i gyfrif.
-

Argymhelliad allweddol 8

Sicrhau bod egwyddor chwarae fel mater o gyfiawnder gofodol yn cael ei chydabod a'i deall trwy *Bolisi Cynllunio Cymru*.

Cerrig milltir awgrymedig

- Adolygu a diwygio *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 (Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored)*, i gynnwys egwyddor cyfiawnder gofodol ar gyfer plant a chymdogaethau cyfeillgar at blant y tu hwnt i fannau chwarae dynodedig, fel ei bod yn gymwys i bob gofod cyhoeddus, yn cynnwys tiroedd ysgolion.
- Defnyddio canllawiau cynllunio i sicrhau bod Asesiadau Digonolrwydd Chwarae'n cyfrannu at dystiolaeth allweddol i hysbysu Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Bro a chyfarwyddyd polisi trafndiaeth a gofodol eraill.
- Cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau cynllunio atodol, gan gyfeirio at *Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach* Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Newid yr iaith mewn canllawiau cynllunio o 'gyfleoedd chwarae' i 'gyfleoedd i chwarae' er mwyn annog ffordd o feddwl ehangach sy'n cynnwys mwy na manau chwarae dynodedig.
- Sicrhau bod yr egwyddor o warchod gofodau agored, yn cynnwys tiroedd ysgolion a manau chwarae, yn cael ei chynnwys yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Awdurdodau Lleol.
- Cynhyrchu nodyn cyfarwyddyd polisi cynllunio (PPG) ar gyfer datblygwyr, sy'n mynnu y dylent gofio ystyried yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae wrth gynllunio datblygiadau newydd.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16* yn gyson gyda'r diffiniadau o amgylcheddau chwarae a geir yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*.
 - Mae canllawiau cynllunio yn adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*.
 - Mae'r holl weithwyr cynllunio proffesiynol, yn cynnwys datblygwyr tai, yn fwy abl i ystyried a darparu ar gyfer chwarae plant yn unol â chyfarwyddyd cenedlaethol.
 - Ymgynghorir yn well gyda chymunedau pan mae gwaredu tir, yn cynnwys tiroedd ysgolion, yn cael ei ystyried.
 - Mae manau chwarae'n cael eu gwarchod pan fydd gwaredu tir yn cael ei ystyried.
 - Mae gwarchod caeau chwarae a manau agored rhag cael eu datblygu, fel yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11, yn cael ei adlewyrchu yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Awdurdodau Lleol.
-

Argymhelliad allweddol 9

Sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau plant yn hysbysu'r ffyrdd y mae cymdogaethau'n cael eu cynllunio a'u rheoli.

Cerrig milltir awgrymedig

- Comisiynu a chefnogi ymchwil i gyfiawnder gofodol a chyfleoedd i chwarae ar gyfer grwpiau penodol o blant, yn cynnwys rhai sy'n byw mewn ardaloedd lleol.
- Sicrhau bod yr adolygiad o'r *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae* yn annog a chefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu rhaglenni ymgynghori cyfeillgar at blant ar lefel cymdogaeth. Dylai gynnwys ymchwil tra-leol gyda phlant gan ddefnyddio dulliau gofodol a chreadigol.
- Annog Cyngorau Tref a Chymuned i ddefnyddio eu pŵer i benodi cynrychiolwyr ieuenctid neu i sefydlu cynghorau ieuenctid, fel yr amlinellir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Yr hyn fydd yn newid

- Ymatebir i farn y plant ac mae plant yn cael eu cefnogi i fod yn asiantau gweithredol ac i gyfranogi yn y broses digonolrwydd cyfleoedd chwarae.
 - Mae Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a chynlluniau gweithredu, yn ogystal â Chynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Bro yn adlewyrchu barn, anghenion a dewisiadau plant yn well.
-

Argymhelliad allweddol 10

Sicrhau bod trefniadau diogelu digonol mewn lleoliadau gwaith chwarae.

Cerrig milltir awgrymedig

- Comisiynu adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer diogelu plant mewn lleoliadau ble nad ydynt yn cael eu hebrwng gan eu rhieni neu eu gofalwyr, heblaw am ysgolion a cholegau

ac yn cynnwys lleoliadau sy'n cael eu cwmpasu gan Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) ar hyn o bryd.

- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod lleoliadau gwaith chwarae heb eu rheoleiddio'n ymwybodol o'r Côt Gwirfoddol o Ymarfer Diogelu a chofrestru i ymrwymo i'w ddefnyddio'n ymarferol.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae trefniadau diogelu mewn lleoliadau gwaith chwarae yn cael eu deall a'u gweithredu.
-

Argymhelliad allweddol 11

Adolygu rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd a gorchmynion sy'n ymwneud â gwaith chwarae.

Cerrig milltir awgrymedig

- Adolygu ymarfer a throsglwyddiad cyfundrefn arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n ymwneud â gwaith chwarae i wella ei addasrwydd i'r diben o fewn y rheoliadau cyfredol. Dylai hyn hysbysu newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) a rheoleiddio ac archwilio'r holl leoliadau gwaith chwarae a dylai hefyd gynnwys datblygiad SGC unigol ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored.
- Adolygu ac ymgynghori ar Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), sy'n gofyn am gofrestru pob darpariaeth sy'n rhedeg am dros ddwy awr y diwrnod neu chwe diwrnod y flwyddyn. Adolygu eithriadau hyfforddi a dysgu a gwahardd cofrestru gwirfoddol lleoliadau o'r fath.
- Adolygu a diweddarau'r diffiniad o waith chwarae mynediad agored a'r lleoliadau ble mae'n digwydd a gwneud adolygiadau perthnasol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Darpariaeth Gofal Plant a Reoleiddir (SGC).
- Diwygio'r amod yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) i gofrestru safle lleoliad fel bod gwasanaethau chwarae mynediad agored peripatetig a lleoliadau y tu allan i oriau ysgol yn gallu cofrestru unwaith gydag agwedd risg-budd at ychwanegu lleoliadau ychwanegol.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae defnydd cymesur o'r SGC yn cael ei ddeall a'i weithredu ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae.
 - Mae system drylwyr sy'n sicrhau trefniadau diogelu ac addasrwydd staff yn cael ei chynnal ym mhob lleoliad gwaith chwarae.
 - Mae rheoliadau, cofrestru ac archwilio sy'n effeithio ar leoliadau gwaith chwarae'n cael eu diweddarau a'u gwneud yn fwy addas i'r diben.
-

Argymhelliad allweddol 12

Datblygu isadeiledd strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu gwaith chwarae.

Cerrig milltir awgrymedig

- Gwneud rôl Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) yn fwy ffurfiol, fel un o ymgylgoreion allweddol Cymwysterau Cymru i gefnogi ystyried ceisiadau newydd i gymeradwyo cymwysterau ar gyfer gwaith chwarae.
- Fel trefniant tymor byr i ganolig, ffurfioli a sicrhau adnoddau ar gyfer y trefniant presennol o gynrychiolaeth sgiliau sector a ddarperir gan PETC Cymru gyda Chwarae Cymru'n darparu'r ysgrifenyddiaeth a chefnogaeth.
- Yn y tymor canolig i'r tymor hir, ystyried sefydliad priodol i gydlynu'r gwahanol swyddogaethau cefnogaeth sgiliau sector ar gyfer gwaith chwarae yng Nghymru. Dylai hyn ystyried rolau esblygol PETC Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg, yn ogystal â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- Defnyddio canfyddiadau o'r adolygiad annibynnol i gofrestrriad proffesiynol y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant i hysbysu penderfyniadau am system gofrestru broffesiynol ar gyfer gwaith chwarae.
- Ymgynghori ar y gefnogaeth ar gyfer cofrestrriad proffesiynol y gweithlu gwaith chwarae. Os y'i cefnogir gan y sector, dynodi corff priodol i ymgymryd â'r rôl, tra'n sicrhau trefniadau cytbwys rhwng rheoleiddwyr.
- Cefnogi a sicrhau adnoddau ar gyfer y sector gwaith chwarae er mwyn gweithredu'r cynlluniau sicrhau ansawdd diweddaraf a ddatblygir gan ac ar gyfer y sector.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae rolau a chyfrifoldebau am gefnogaeth sgiliau sector yn cael eu deall ac mae gan y sector gwaith chwarae gynrychiolaeth strategol glir.
- Mae cymwysterau gwaith chwarae'n addas ac yn cyflawni anghenion y sector.
- Mae gwaith chwarae'n cael ei gydnabod fel rhan bwysig o'r gweithlu plant.
- Mae mecanwaith ar gyfer asesu addasrwydd staff yn cael ei weithredu.
- Mae darparwyr gwaith chwarae'n datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n cyfrif fel gwaith chwarae o safon a sut y gellir ei gyflawni.

Argymhelliad allweddol 13

Sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer datblygu'r gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.

Cerrig milltir awgrymedig

- Ystyried gofynion penodol y sector gwaith chwarae a gweithwyr chwarae yn natblygiad cynlluniau ariannu i'r dyfodol i gefnogi hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn y sector.
- Cynllunio ar gyfer ac ariannu opsiwn cynaliadwy i ddisodli'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant ddaw i ben ym mis Mawrth 2023. Defnyddio canfyddiadau *Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021* i sicrhau datblygiad strategol a mabwysiadu agwedd gydweithrediadol yn hytrach nag agwedd gystadleuol tuag at ddyrannu cyllid ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau.
- Defnyddio canfyddiadau o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae, Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac *Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021* i hysbysu adolygiad arfaethedig a gweithrediad *Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar*, 10 mlynedd o hyd Llywodraeth Cymru.

- Ymrwymo i ariannu datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu chwarae ehangach, er enghraifft trwy hyfforddiant, rhaglenni datblygiad proffesiynol neu gynadleddau amlasiantaethol.
- Gweithio gyda'r sector i gytuno ar arweiniad ar raddfeydd cyflog, arferion recriwtio ac amodau a thelerau ar gyfer gwaith chwarae.
- Defnyddio ymchwil digonolrwydd cyfleoedd chwarae i hysbysu datblygiad a throsglwyddiad hyfforddiant traws-broffesiynol ar faterion cyfiawnder gofodol ar gyfer plant, i gynnwys y bobl hynny sydd, yn benodol, yn ymwneud â chynllunio, teithio llesol a'r heddlu.

Yr hyn fydd yn newid

- Cynllunnir ar gyfer trosglwyddiad cymwysterau gwaith chwarae i'r dyfodol, a'i ariannu'n strategol.
- Defnyddir gwerthusiadau a chanfyddiadau ymchwil i'r gweithlu i gynllunio'n strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu.
- Rydym yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff yn y gweithlu gwaith chwarae.
- Mae anghenion chwarae plant ac effaith penderfyniadau ar chwarae'n cael eu cydnabod gan ystod eang o weithwyr proffesiynol.

Argymhelliad allweddol 14

Hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a'r defnydd o diroedd ysgol fel ased cymunedol ar gyfer chwarae trwy'r polisi ysgolion bro.

Cerrig milltir awgrymedig

- Sicrhau bod pwysigrwydd chwarae wedi ei wreiddio yn hyfforddiant a chronfa wybodaeth holl staff yr ysgol, yn cynnwys uwch-arweinyddion.
- Sicrhau bod datganiad lefel uchel Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar chwarae ac asesu risg-budd (ARB) yn cael ei gynnwys mewn unrhyw arweiniad ar gyfer ysgolion sy'n ymwneud â iechyd a diogelwch am chwarae, gweithgareddau, a'r defnydd o gyfleusterau ysgol.
- Cyhoeddi cyfarwyddyd i gyrff llywodraethu ysgolion sy'n eu hatgoffa am hawl plant i chwarae a'r disgwyliad eu bod yn gwneud yn siŵr bod eu hysgol yn cynnwys yr hawl hon.
- Diweddarau'r canllawiau ar gyfer defnyddio cyfleusterau'r ysgol y tu allan i'r diwrnod ysgol i gynnwys gwybodaeth am annog cyfleoedd i chwarae a darpariaeth gwaith chwarae. Defnyddio'r arweiniad hwn i hysbysu dyraniad grantiau i ysgolion.
- Sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaethau a ddatblygir i gefnogi cyflwyniad y fenter ysgolion bro yn cynnwys cyfeiriadau amlwg at y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a osodir ar awdurdodau lleol.

Yr hyn fydd yn newid

- Hwylusir gwerthfawrogiad llawn o werth chwarae a sut i'w gefnogi er ei fwyn ei hun mewn ysgolion.
- Mae ARB, fel elfen allweddol o bolisi ac ymarfer, wedi ei wreiddio mewn ysgolion.
- Mae'r hawl i chwarae'n cael ei chefnogi'n well trwy bob agwedd o'r diwrnod ysgol.

- Mae ysgolion yn cael eu cydnabod a'u defnyddio fel lleoliadau i chwarae mewn cymdogaethau.
-

Argymhelliad allweddol 15

Cynyddu a gwella amserau chwarae ac egwyl mewn ysgolion.

Cerrig milltir awgrymedig

- Gofyn i Estyn ystyried ei rôl wrth gefnogi gwelliant mewn chwarae trwy ei waith arolygu a chynyddu capasiti.
- Gofyn i Estyn weithio gyda phartneriaid a chyfrannu at ddysg proffesiynol sy'n cefnogi rhagoriaeth a thegwch mewn chwarae.
- Sicrhau bod cynlluniau cyfredol ar gyfer diwygio'r diwrnod ysgol yn cynnwys canllawiau ar gyfer yr hyd byrraf ar gyfer egwyliau ac amserau chwarae mewn ysgolion.
- Sicrhau bod y fenter i ymestyn y diwrnod ysgol yn cynnwys opsiwn i blant ddefnyddio'r amser ychwanegol i chwarae.
- Sicrhau, drwy ganllawiau dylunio, bod dyluniad mewnol ysgolion, tirlunio a dyluniad meysydd chwarae'n cefnogi cynnwys nodweddion chwarae mewn cynlluniau ysgolion newydd o'r cychwyn cyntaf.
- Sicrhau bod ysgolion yn cael eu cyfeirio at ganllawiau arfer da i'w galluogi i ddarparu cyfleoedd i blant chwarae'r tu allan bob dydd.
- Sicrhau bod Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn gyfarwydd gydag ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatganiad lefel uchel Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar chwarae ac ARB a'i fod yn hysbysu eu harchwiliadau penodol yn briodol.

Yr hyn fydd yn newid

- Mae amser chwarae'n cael ei flaenoriaethu a'i ddiogelu fel rhan o bolisiau ysgol gyfan.
 - Mae lleoliadau addysg ar gyfer pob oedran yn darparu mannau awyr agored a dan do o ansawdd ar gyfer chwarae ac mae'r ddau'n cael eu hystyried yr un mor bwysig mewn asesiadau.
 - Mae'r broses arolygu'n cydnabod asesu risg-budd.
-

Atodiad 1: Aelodaeth y Grŵp Llywio

Cynrychiolwyr

Cynrychiolwyr Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)

Arolygiaeth Gofal Cymru (aelod heb hawl pleidleisio)

Plant yng Nghymru

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Partneriaeth Cwlwm:

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Blynyddoedd Cynnar Cymru

Mudiad Meithrin

NDNA Cymru

Professional Association for Childcare and Early Years (PACEY) Cymru

Comisiwn Dylunio Cymru

Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru

Cyngor Gweithlu Addysg

Estyn

Meysydd Chwarae Cymru (FiT Cymru)

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent

Ymgynghorwyr academiaidd annibynnol:

Prifysgol Metropolitan Caerdydd – Chantelle Haughton

Prifysgol Caerdydd – Dr Matluba Khan

Prifysgol Abertawe – Dr Pete King

Prifysgol Swydd Gaerloyw – Dr Wendy Russell

Rethinking Childhood – Tim Gill

Awdurdodau lleol:

Cyngor Abertawe

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Learning through Landscapes

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Un Llais Cymru

Clybiau y tu allan i oriau ysgol:

Little Lambs Day Nursery

Dexters Holiday Club

Chware Cymru – cyfrifol am ddrafftio adroddiad y grŵp llywio

Llywodraeth Cymru – Prif Berchennog Cyfrifol y prosiect ac ysgrifenyddiaeth

Iechyd Cyhoeddus Cymru

SkillsActive

Gofal Cymdeithasol Cymru

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro LIC / Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid

Cymru Ifanc

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – gwahoddwyd i ddod yn aelodau, ond ddim mewn sefyllfa i dderbyn.

-
- ¹ Mae'r term 'plant' trwy'r adroddiad hwn yn cyfeirio at bobl 0 i 17 oed, fel y diffinnir gan yr amrediad oedran y cyfeirir ato yn Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012.
- ² Llywodraeth Cymru (2002) *Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- ³ Llywodraeth Cymru (2006) Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- ⁴ Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn CRC (2013) *General comment No. 17 (2013) on the right of the child to rest, leisure, play, recreational activities, cultural life and the arts (art. 31)*. Geneffa: Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn.
- ⁵ Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) *Darparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu*. Caerdydd: Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- ⁶ Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 Pennod 2 [ar-lein] Ar gael ar: <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/contents>
- ⁷ Gweler: Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Adroddiad Sbotolau: Erthygl 31*. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru; Dallimore, D. (2019) *'Rwy'n dysgu pethau newydd ac yn dringo coed' Yr hyn sydd gan blant i'w ddweud am chwarae yng Nghymru*. Caerdydd: Chwarae Cymru.
- ⁸ Gweler: Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a Change – Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*. Llundain: National Children's Bureau ar ran Play England; Whitebread, D., Basilio, M., Kvalja, M. a Verma, M. (2012) *The Importance of Play*. Toy Industries of Europe.
- ⁹ Panksepp, J. (2008) Play, ADHD, and the Construction of the Social Brain: Should the First Class Each Day Be Recess?, *American Journal of Play*, cyf. 1, rhif 1.
- ¹⁰ Lester, S. a Russell, R. (2008) dyfynnwyd uchod.
- ¹¹ Prif Swyddogion Meddygol y DU (2019) *UK Chief Medical Officers' Physical Activity Guidelines*.
- ¹² Whitebread, D. (2017) Free Play and Children's Mental Health, *Lancet Child Adolescent Health*, 1(3), Tachwedd, 167-9.
- ¹³ Gleave, J. (2010) *Community Play: A literature review*. Llundain: Play England.
- ¹⁴ Pellis, S. a Pellis, V. (2013) *The playful brain: venturing to the limits of neuroscience*. Rhydychen, Y DU: Oneworld Publications.
- ¹⁵ Cyngor Dinas Nottingham a Russell, W. (2006) *Reframing Playwork; Reframing Challenging Behaviour. Playwork Impact Evaluation*. Nottingham: Cyngor Dinas Nottingham.
- ¹⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (2019) *Gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- ¹⁷ Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Adroddiad Sbotolau: Erthygl 31*. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru
- ¹⁸ Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayyb 1974 [ar-lein] Ar gael ar: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1974/37>
- ¹⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (2019) *Gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- ²⁰ Plant yng Nghymru (2021) *Children and Young People's Consultation on the Ministerial Play Review*. Caerdydd: Plant yng Nghymru.
- ²¹ Dallimore, D. (2019) dyfynnwyd uchod.
- ²² Chatterjee, S. (2018) Children's Coping, Adaptation and Resilience through Play in Situations of Crisis. *Children, Youth and Environments*, 28, 119-145.
- ²³ Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod; Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Coronafeirws a Fi*. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru.
- ²⁴ Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Coronafeirws a Fi: Profiadau plant o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru*. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru.
- ²⁵ Gweler: Lester, S. a Russell, W. (2010) *Children's right to play: An examination of the importance of play in the lives of children worldwide, Working Paper No. 57*. The Hague, Yr Iseldiroedd: Bernard van Leer Foundation; Whitebread, D., Basilio, M., Kvalja, M. a Verma, M. (2012) *The importance of play: a report on*

the value of children's play with a series of policy recommendations. Brwsel, Gwlad Belg: Toy Industries of Europe.

²⁶ Lester, S. a Russell, W. (2013) *Welingtons Croen Llewpard, Het Silc a Phiben Sugnwr Llwhch: Dadansoddiad o ddyletswydd Asesiad Digonolrwydd Chwarae, Cymru.* Caerdydd: Prifysgol Swydd Gaerloyw a Chwarae Cymru.

²⁷ Brooker, L. a Woodhead, M. gol (2013) *The Right to Play in Early Childhood in Focus 9.* Milton Keynes: Y Brifysgol Agored.

²⁸ Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.

²⁹ Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) *Ei gwneud hi'n bosibl i gyflawni Digonolrwydd Chwarae: Archwilio'r amodau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd digonol i blant yng Nghymru chwarae.* Caerdydd: Chwarae Cymru.

³⁰ Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

³¹ Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod.

³² Dyfynnwyd yn Ibid, td.16.

³³ Dallimore, D. (2019) dyfynnwyd uchod.

³⁴ Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.

³⁵ Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 dyfynnwyd uchod.

³⁶ Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

³⁷ Llywodraeth Cymru (2015) *Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Pecyn Cymorth.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

³⁸ Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019) *Hawl Plant i Chwarae yng Nghymru: Chwe blynedd o straeon a newid ers cychwyn Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol Cymru.* Caerdydd: Chwarae Cymru.

³⁹ Gweler: Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019, 2020) dyfynnwyd uchod; Chwarae Cymru (2019) *Cyflwr Chwarae 2019 Adroddiad ar Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a Chynlluniau Gweithredu Chwarae 2019.* Caerdydd: Chwarae Cymru.

⁴⁰ Llywodraeth Cymru (2015) *Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Pecyn Cymorth, Rhan Un, td.3.*

⁴¹ Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019, 2020) dyfynnwyd uchod.

⁴² <https://www.plentyndodchwareus.cymru>

⁴³ Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.

⁴⁴ Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019) dyfynnwyd uchod, tt.33-34.

⁴⁵ Chwarae Cymru (2019) dyfynnwyd uchod.

⁴⁶ Ibid.

⁴⁷ Gweler: Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod; Chwarae Cymru (2019) dyfynnwyd uchod.

⁴⁸ Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) dyfynnwyd uchod.

⁴⁹ Llywodraeth Cymru (2021) *Polisi Cynllunio Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

⁵⁰ Arup (2017) *Cities Alive: Designing for urban childhoods.* Llundain: Arup; Gill, T. (2021) *Urban Playground: How child-friendly planning and design can save cities.* Llundain: RIBA.

⁵¹ Mae hwn yn derm a ddefnyddir gan Tim Gill (2021) dyfynnwyd uchod. Mae'n cyfeirio at allu plant i symud yn ddidrafferth o amgylch eu cymdogaethau a hefyd at yr hyn y mae manau cyhoeddus mewn cymdogaethau'n eu cynnig / darparu ar gyfer chwarae.

⁵² Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru,* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, td. 241.

⁵³ Russell et al (2019, 2020) dyfynnwyd uchod.

⁵⁴ Llywodraeth Cymru (2021) *Canllawiau y Ddeddf Teithio Llesol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

⁵⁵ Llywodraeth Cymru (2020) *Adeiladu Lleoedd Gwell.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

⁵⁶ Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.

⁵⁷ Llywodraeth Cymru (2012) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

⁵⁸ Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.

⁵⁹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2010/2839/made>

-
- ⁶⁰ Llywodraeth Cymru (2017) *Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar – Cynllun Gweithlu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- ⁶¹ Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- ⁶² Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol [ar-lein]. Ar gael ar: <https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/sgc>
- ⁶³ Cymwysterau Gofynnol [ar-lein]. Ar gael ar: <https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cymwysteraugofynnol>
- ⁶⁴ Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae (PETC Cymru) [ar-lein]. Ar gael ar: <https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/petccymru>
- ⁶⁵ Russell, W. (gol), Ardelean, A. a Smith, K. (2021) *The Case for Play in Schools: A review of the literature*, Bristol, Outdoor Play and Learning. Bryste: OPAL.
- ⁶⁶ Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
- ⁶⁷ Llywodraeth Cymru (2014) dyfynnwyd uchod.
- ⁶⁸ Cwricwlwm i Gymru [ar-lein]. Ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>
- ⁶⁹ Llywodraeth Cymru (2021) Cwricwlwm i Gymru >Dylunio eich cwricwlwm >Ystyriaethau ymarferol a'u rhoi ar waith [ar-lein]. Ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/ystyriaethau-gweithredu-ac-ymarferol/#addysgeg>
- ⁷⁰ Llywodraeth Cymru (2022) *Cwricwlwm i Gymru > Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- ⁷¹ Llywodraeth Cymru (2021) Datganiad Ysgrifenedig: Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr [ar-lein]. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr?_ga=2.124690954.1008241272.1623745236-892243723.1617700927
- ⁷² Chwarae Cymru (2019) dyfynnwyd uchod.
- ⁷³ Hobbs, C., et al. (2019) *Children's Right to play position paper*. Caerlŷr: Adran Seicolegwyr Addysg a Phlant Cymdeithas Seicolegol Prydain.
- ⁷⁴ Baines, E. a Blatchford, P. (2019) *School break and lunchtimes and young people's social life: A follow-up national study*. Adroddiad terfynol (EDU/42402) i'r Nuffield Foundation.
- ⁷⁵ Llywodraeth Cymru (2021) *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- ⁷⁶ Russell et al (2021) dyfynnwyd uchod.
- ⁷⁷ Estyn (2019) Adroddiad *lach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion*. Caerdydd: Estyn.
- ⁷⁸ ICM/Playday Poll (2008) [ar-lein]. Ar gael ar: <http://playday.gn.apc.org/resources/research/2008-research/>
- ⁷⁹ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) (2012) *Chwarae a Hamdden Plant – Hyrwyddo Agwedd Gytbwys*.

Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

ADRODDIAD TERFYNOL

Paratowyd gan Chwarae Cymru ar gyfer Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

Ionawr 2023

ISBN: 978-1-914361-09-8

© Llun clawr: Chwarae Cymru | Play Wales